

FFONS FENDIGEDIG O'R FFYDD

ASTUDIAETH AR FFYNHONNAU SANCTAIDD YNG NGHYMRU DRWY GYFRWNG
BUCHEDDAU'R SAINT A CHERDDI BEIRDD YR UCHELWYR

Debbie S. Seamark

1707370

Traethawd hir a gyflwynwyd i Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
i fodloni'n rhannol ofynion MA mewn Astudiaethau Celtaidd (2021)

Graddau Meistr drwy Arholiad a Thraethawd Hir

Ffurflen ddatganiad

1. Nid yw sylwedd y gwaith hwn wedi'i dderbyn am radd yn flaenorol ac nid yw'n cael ei gyflwyno mewn ymgeisyddiaeth am unrhyw radd arall ar hyn o bryd.

Enw.....Debbie Seamark

Dyddiad.....29 Medi 2021

2. Cyflwynir y traethawd hir hwn i gyflawni'n rhannol ofynion gradd ...

MA Astudiaethau Celtaidd.

Enw.....Debbie Seamark

Dyddiad 29 Medi 2021

3. Ffrwyth fy ngwaith/ymchwil annibynnol fy hun yw'r traethawd hir hwn, ac eithrio lle nodir fel arall.

Cydnabyddir ffynonellau eraill trwy gyfrwng troednodiadau sy'n rhoi cyfeiriadau manwl.

Atodir llyfryddiaeth.

Enw.....Debbie Seamark

Dyddiad: 29 Medi 2021

4. Rhoddaf ganiatâd drwy hyn i'm traethawd hir, os caiff ei dderbyn, fod ar gael i'w lungopïo, ei fenthycu rhwng llyfrgelloedd, a'i adneuo yng nghadwrfa ddigidol y Brifysgol.

Enw.....Debbie Seamark

Dyddiad 29 Medi 2021

Datganiad y Goruchwyliwr

Rwy'n fodlon fod y gwaith hwn yn ganlyniad i ymdrechion y myfyriwr ei hun.

Llofnodwyd:

Dyddiad:

Cynnwys

		Tudalen
Diolchadau		4
Crynodeb		5
Rhagymadrodd		6
Pennod 1	Tarddiad y Ffynhonnau	10
Pennod 2	Gwedd y Ffynhonnau	26
Pennod 3	Defnydd o'r Ffynhonnau	42
Diweddsglo		61
Atodiad A	Y Beirdd	64
Atodiad B	Cerddi Crefyddol i'r Seintiau a Drafodir	65
Atodiad C	Dulliau Creu Ffynnon	68
Llyfryddiaeth		70

Diolchiadau

Hoffwn ddiolch i'r bobl ganlynol am eu cymorth:

I ddechrau, hoffwn gydnabod fy ngoruchwyliwr, yr Athro Jane Cartwright, a daniodd fy niddordeb yn y pwnc yn gyntaf trwy'r modiwl am santesau Cymru. Y mae ei brwdfrydedd yn ymledol a dymunaf ddiolch iddi yn fawr am ei harweiniad a'i chynghor gwerthfawr ac yr wyf yn ddiolchgar iawn iddi hefyd am ganiatáu i fi weld ei gwaith cyfredol, nad yw wedi'i gyhoeddi eto.

Diolch o galon i Dr R. Iestyn Daniel am anfon ei erthygl ataf pan oedd y llyfrgelloedd i gyd ar gau yn sgil y pandemig.

Hoffwn ddiolch i lyfrgellwyr Prifysgol Cymru'r Drindod Dewi Sant am fy nghynorthwyo i ddod o hyd i lyfrau ac erthyglau yn ystod y pandemig, yn enwedig Victoria Hankinson a Mark Watkins.

Dw i'n ddiolchgar hefyd i lyfrgellwyr fy llyfrgell gyhoeddus leol, Dean a Claire, am ddod o hyd i lyfrau a threfnu iddynt gael eu cludo i'm llyfrgell leol.

Yn olaf, hoffwn i ddiolch i'm teulu, yn neilltuol fy ngŵr, Martin, a'm merch, Julia, am eu cariad, eu hamynedd a'u cefnogaeth ar hyd y daith hon.

Crynodeb

Efallai oherwydd bod cynnifer ohonynt, y mae ffynhonnau sanctaidd Cymru wedi ennyn cryn ddiddordeb, yn enwedig o ran chwedlau gwerin a gasglwyd yn bennaf o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ymlaen. Diben y traethawd hwn, fodd bynnag, yw canfod y credoau a'r traddodiadau ynglŷn â ffynhonnau a oedd mewn bodolaeth yng Nghymru yn yr Oesoedd Canol. Gwneir hyn trwy archwilio'r testunau canoloesol sydd ar gael, megis bucheddau Lladin a Chymraeg seintiau Cymru a barddoniaeth Beirdd yr Uchelwyr, ynghyd â thrafod barn gyhoeddedig ysgolheigion.

Dechreuwa'r traethawd trwy ddadansoddi'r disgrifiadau o sut a phaham y cafodd y ffynhonnau eu creu gan y seintiau ac olrhain tarddiadau tebygol y motiffau a ddefnyddir yn y testunau. Yna dadansoddir y modd y disgrifir y ffynhonnau yn ogystal ag unrhyw nodweddion arbennig sydd ganddynt. Yn olaf ystyrir sut y defnyddid y ffynhonnau o oes dybiedig y seintiau hyd at oes y beirdd a thrafodir y gwahanol ddefodau canoloesol a gysylltid â ffynhonnau, yn ôl y ffynonellau cynradd.

Rhagymadrodd

Y mae dŵr yn angenrheidiol i gynnal bywyd ond y mae hefyd wedi chwarae rôl bwysig yng nghrediniaeth ac ysbrydolrwydd y boblogaeth - o gred y paganiaid i'r ffydd Gristnogol. Felly buasai'r ffynhonnau wedi bod yn rhan o fywyd beunyddiol pobl yng Nghymru dros gyfnod maith; yr uchelwyr a'r werin fel ei gilydd.

Yn wahanol i ymchwil flaenorol nid diben y traethawd hwn yw asesu a yw'r ffynhonnau'n goroesi, lleoliad y ffynhonnau neu a yw'r chwedlau'n wir ond yn hytrach archwilio'r testunau canoloesol i ganfod y credoau a'r traddodiadau am ffynhonnau sanctaidd, a oedd yn cylchredeg yn ystod yr Oesoedd Canol. Er mwyn gwneud hyn, archwilir bucheddau'r saint a barddoniaeth (yn bennaf cerddi Beirdd yr Uchelwyr) a thestunau eraill, megis cofnodion Gerallt Gymro a llawysgrifau Iolo Morganwg ynghyd â thrafod barn gyhoeddedig ysgolheigion. Y nod yw adeiladu ar yr astudiaeth ysgolheigaidd sy'n taflu goleuni ar y defnydd o ffynhonnau sanctaidd yng Nghymru ac ehangu ar y dadansoddiadau a gynigiwyd hyd yn hyn.¹

Defnyddir y bucheddau canlynol yn yr astudiaeth:

Buched Ieuan Gwas Badric, NLW Llanstephan 34 (ail hanner yr unfed ganrif ar bymtheg)

Buched Leudoc St., NLW Llanstephan 34 (ail hanner yr unfed ganrif ar bymtheg)

Hystoria o Uchedd Beuno, Oxford, Bodleian Library Jesus College MS. 2 (c. 1346)

Hystoria o Uched Dewi, NLW Llanstephan 27 (diwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg)

Legenda 9 Lectionu de Scto Daniele Epo Bangoriesi, NLW Peniarth MS 225 (1602)

Uita Sancti Bernachii, BL MS Cotton Vespasian A.xiv (deuddegfed ganrif)

Vita Sancti Cadoci, BL MS Cotton Vespasian A.xiv (deuddegfed ganrif) a Cotton Titus Dxxii (hanner cyntaf y bymthegfed ganrif)

¹ Er enghraifft, F. Jones, *The Holy Wells of Wales* (Cardiff: University of Wales Press, 1954), R. I. Daniel, 'Y Ffynhonnau yng Nghanu'r Cywyddwyr' yn *Dwned: Cylchgrawn Hanes a Llen Cymru'r Oesoedd Canol*, Rhif 7 (2001) 65-81

Vita Sancti David, BL MS Cotton Vespasian A.xiv (deuddegfed ganrif)
Vita Sancti Gundleii, BL MS Cotton Vespasian A.xiv (deuddegfed ganrif)
Vita Sancti Iltuti, BL MS Cotton Vespasian A.xiv (deuddegfed ganrif)
Vita Sancti Kebii, BL MS Cotton Vespasian A.xiv (deuddegfed ganrif)
Vita Sancti Tathei, BL MS Cotton Vespasian A.xiv (deuddegfed ganrif)
Vita Beati Oudocei, Landavensis Archiepiscopi, Liber Landavensis (deuddegfed ganrif)
Vita Sancti Teliaui, Liber Landavensis (deuddegfed ganrif)
Vita Samsonis, cyfieithiad Taylor (seithfed ganrif)
Vita Sancte Wenefrede, BL MS Cotton Claudius A.v (deuddegfed ganrif)
Vita et Translatio S. Wenefredae, Oxford, Bodleian Library, Laud. Misc. 114 (deuddegfed ganrif)
Buchedd Gwenfrewy, NLW Llanstephan 34 (ail hanner yr unfed ganrif ar bymtheg)

Buasai'r bucheddau hyn² wedi'u defnyddio ar ffurf pregethau neu lithoedd efallai ar wyliau'r seintiau ac y mae'n amlwg bod y beirdd yn gyfarwydd â'r traddodiadau hyn gan eu bod wedi cynnwys manylion ohonynt yn eu cerddi. Y mae'r rhan fwyaf o'r farddoniaeth yn yr

² Defnyddir y golygiadau a'r cyfieithiadau canlynol:

'Buchedd Ieuan Gwas Padrig' gol. a chyf. Jane Cartwright, gwefan *Seintiau yng Nghymru/Saints in Wales* (forthcoming)

'Buchedd Leudoc St', 'Legenda 9 Lectionū de Scto Daniele Epō Bangorēsi' a 'Buchedd Gwenfrewy' yn *Lives of the British Saints: the saints of Wales and Cornwall and such Irish saints as have dedications in Britain Vol IV* gol. S. Baring-Gould, S. a J. Fisher (London: The Honourable Society of Cymmrodorion, 1913)

'Hystoria o Uched Beuno', 'Uita Sancti Bernachii', 'Vita Sancti Cadoci', 'Vita Sancti Gundleii', 'Vita Sancti Iltuti', 'Vita Sancti Kebii', 'Vita Sancti Tathei' a 'Vita Sancte Wenefrede' yn *Vitae Sanctorum Britanniae* gol. A. W. Wade-Evans (Cardiff: Welsh Academic Press, 2013)

The Welsh Life of David gol. D. Simon Evans (Cardiff: University of Wales Press, 2016)

'a chyf. 's Life of David' gol. R. Sharpe a J. R. Davies yn *St David of Wales: Cult, Church and Nation* gol. J. W. Evans a J.M. Wooding (Woodbridge: Boydell Press, 2007) t. 131 [Ar-lein] Ar gael ar: https://web-a-ebshost-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/ehost/ebookviewer/ebook/bmxlYmtfXzI3ODEwMV9fQU41?sid=464f274e-df61-4110-8d14-0b587635695a@sessionmgr4008&vid=0&format=EB&lpid=lp_107&rid=0 <cyrchwyd 25 Mehefin 2021>

'Vita Beati Oudocei', Landavensis Archiepiscopi' a 'Vita Sancti Teliaui' Landavensis Archiepiscopi' yn *The Liber Landavensis, Llyfr Teilo, or the Ancient Register of the Cathedral Church of Llandaff* gol. W. J. Rees (Llandovery: William Rees, 1840)

The Life of St. Samson of Dol gol. a chyf. T. Taylor (London: Society for Promoting Christian Knowledge, 1925)

'Vita et Translatio S. Wenefredae' yn *Two Mediaeval Lives of Saint Winefride* gol. a chyf. R. Pepin a H. Feiss (Eugene: Wipf and Stock, 2000)

astudiaeth hon yn dyddio o'r bymthegfed ganrif i'r unfed ganrif ar bymtheg,³ er bod un ohonynt mor gynnar â'r ddeuddegfed ganrif a chynhwysir un gerdd Brotestannaidd o'r ail ganrif ar bymtheg.⁴ Ymddengys fod galw am gerddi crefyddol gan y noddwyd rhai ohonynt gan ofalwyr y ffynhonnau neu'r eglwys ond fel y noda Glanmor Williams, buasai'r eglwys yn ymwybodol siŵr o fod y gallai ddysgu pobl trwy farddoniaeth, gydag odl a rhythm yn gweithio fel cymorth cof.⁵ Eto ceir rhai sy'n fwy personol ei naw, lle y mae'r bardd yn erfyn ar y sant neu'r santes eiriol ar Dduw drosto neu'n diolch i'r sant neu'r santes am eu cymorth dihafal, iachâd yn bennaf, nad oedd ar gael ar y ddaear.

Yn yr astudiaeth hon, trafodir y ffynhonnau o ran tri chyfnod o amser, sef oes y seintiau (rhwng y bumed a'r seithfed ganrif), yr adeg pan ysgrifennwyd y bucheddau Lladin a chyfnod diweddarach Beirdd yr Uchelwyr a'r bucheddau Cymraeg. Fodd bynnag, y mae'n rhaid cadw mewn cof yr ysgrifennwyd am oes y seintiau'n ôl-syllol; fe'i cofnodwyd am y tro cyntaf yn y bucheddau o'r ddeuddegfed ganrif ymlaen gan fynachod Eingl-Normanaidd. Ymhellach er bod y mynachod yn ysgrifennu am y traddodiadau Cymreig am y seintiau, yn ôl pob tebyg y mae'r cofnodion wedi'u dylanwadu gan safbwynt a diwylliant gwahanol y bucheddwyr.

Dechreuau'r astudiaeth hon trwy ddehongli'r disgrifiadau o sut y mae'r seintiau gwrywaidd a benywaidd yn creu ffynhonnau (yn ôl y bucheddau a'r farddoniaeth) ac olrhain tarddiadau tebygol y motiffau a ddefnyddir yn y testunau. Y mae'r ail bennod yn dadansoddi'r modd a ddisgrifir gwedd ganoloesol y ffynhonnau, eu dŵr a'r ardal gyfagos, gan gynnwys unrhyw nodweddion arbennig sydd ganddynt. Yn y drydedd bennod, trafodir sut y defnyddid y

³ Rhestrir enwau'r beirdd yn yr astudaieth yn Atodiad A, t. 64 a'r cerddi a drafodir yn Atodiad B, tt. 65-67.

⁴ Y mae tair cerdd gan Feirdd y Tywysogion wedi goroesi o'r ddeuddegfed ganrif: Awdl i Ddewi gan Wynfardd Brycheiniog, Canu i Gadfan gan Lywelyn Fardd a Chanu Tysilio gan Gynddelw Brydydd Mawr.

⁵ Williams, Glanmor, *The Welsh Church from Conquest to Reformation*. (Cardiff: University of Wales Press, 1976), t. 29

ffynhonnau o oes y seintiau hyd at oes Beirdd yr Uchelwyr, gan gynnwys unrhyw ddefodau canoloesol, a soniwyd amdanynt.

Pennod 1: Tarddiad y Ffynhonnau

Yn ei hastudiaeth arloesol, dangosa Elissa R. Henken fod patrymau i fucheddau'r seintiau ac fel sy'n digwydd mewn llên gwerin, ailddefnyddir yr un themâu a motiffau yn hanesion seintiau gwahanol.⁶ Y mae hyn yn wir hefyd am greu ffynhonnau sanctaidd, gwyrth sy'n ymddangos yn aml iawn ym mucheddau'r saint. Y mae'r bennod hon, felly, yn ystyried sut y disgrifir creu ffynnon a tharddiadau dichonadwy'r motiffau a ddefnyddir gan y bucheddydd neu'r bardd.

Un o'r ffyrdd mwyaf cyffredin o greu ffynnon ym mucheddau'r seintiau gwrywaidd yw'r sant yn taro'r ddaear â'i fagl i gynhyrchu llif sydyn o ddŵr.⁷ Er enghraifft, ym muchedd Ieuan Gwas Padrig: 'Ac yno y trewis y gwynfydedic Ieuan Was Padric bic i phonn yn y ddayar, ac yno y rodes phynnonn dec ac yr yfodd Ieuan ddiod.'⁸ Noda Henken, 'The imagery is simple - piercing the earth's skin, thus letting the life-giving fluid under its surface flow forth.'⁹ Efallai ei fod yn syml ond y mae'n drawiadol ac yn arwydd diamau o bŵer y sant. Gwneir y trosiad yn gliriach byth ym muchedd Tathan: 'the dry soil yielded water ... as a vein in the arm.'¹⁰ Ceir cyfeiriadau uniongyrchol at wythiennau ym marddoniaeth; disgrifir llednant Ffynnon Gathen fel 'wythen' yng nghywydd Dafydd Epynt.¹¹ Fodd bynnag, y mae'n bosibl fod elfen ieithyddol i'r gymhariaeth hefyd oherwydd y gall 'gwythen' olygu 'gwythien', 'ffynnon' neu 'llednant'.¹²

⁶ E. R. Henken, *The Welsh Saints: A Study in Patterned Lives* (Cambridge: D. S. Brewer, 1991) Lle y b modd, cynhwysir mynegai o fotiffau sydd wedi'u dosbarthu yn ôl Stith Thompson *Motif-index of folk-literature* (Ar gael ar: https://sites.ualberta.ca/~urban/Projects/English/Motif_Index.htm) tt. 136-82

⁷ Gweler y tabl ar dudalen 68 sy'n rhestru'r seintiau sydd wedi defnyddio'r dull hwn.

⁸ 'Buchedd Ieuan Gwas Padrig' gol. a chyf. Jane Cartwright

⁹ E. R. Henken, *Traditions of the Welsh Saints* (Cambridge: D. S. Brewer, 1987) t. 105

¹⁰ 'Vita Sancti Tathe'i' yn *Vitae Sanctorum Britanniae et Genealogiae* gol. A. W. Wade-Evans, t.279

¹¹ Dafydd Epynt, Cerdd 4, ll. 33 yn *Gwaith Dafydd Epynt* gol. Owen Thomas (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 2002),

¹² GPC ar-lein d.g. *gwythen*

Credir yn gyffredinol bod y motiff hwn yn Feiblaidd ac yn adlewyrchu Moses yn taro'r graig â'i ffon¹³ yn yr anialwch i gael dŵr i'r Israeliaid. Y mae hyn yn debygol iawn o ystyried i fucheddau cyntaf Cymru gael eu hysgrifennu gan fynachod Eingl-Normanaid a Chymreig, a fyddai'n gyfarwydd iawn â straeon y Beibl. Yn achos y bucheddau diweddarach, y mae posibilrwydd hefyd fod y motiff wedi'i fenthyl o fuchedd gyfarwydd arall.

Honna'r Prior Robert yn ei ragymadrodd i fuchedd Lladin Gwenfrewy fod y cynnwys yn seiliedig ar ddogfennau'r eglwysi, lle yr oedd Gwenfrewy'n byw ac adroddiadau offeiriaid dibynadwy,¹⁴ sef traddodiadau llafar ond efallai nad yw hynny'n wir am bob buchedd. Fel y dywed D. Simon Evans, diben buchedd oedd 'hyrwyddo achos, sefydliad neu eglwys' a hepgorwyd unrhyw ffeithiau nad ydynt yn cyd-fynd â'r achos dan sylw.¹⁵ Y mae'n bosibl, felly, i'r mynachod ychwanegu at gynnwys y chwedlau gwreiddiol neu newid eu manylion er mwyn iddynt gydffurfio â phatrwm crefyddol oedd yn gyfarwydd iddynt, naill ai ar ddamwain neu'n fwriadol. Yn wahanol i grefft lenyddol heddiw, lle y disgwylir i ysgrifenydd fod yn wreiddiol, y mae'n debyg nad oedd diffyg gwreiddioldeb yn wendid ym marn y bucheddwyr, a geisiodd efelychu arddull a themâu'r bucheddau Groeg a Lladin cynharach.

Ar y llaw arall, cred Henken mai yn hytrach na dod yn uniongyrchol o'r Beibl ei hunan, y mae posibilrwydd fod y motiffau yn tarddu o gainc wahanol yr un gronfa o draddodiadau. Lle y mae'r awdur yn cynnwys cyffelybiaeth, nid yw hyn ond yn dangos eu bod yn ymwybodol o'r tebygrwydd.¹⁶ Eto os tardd y motiff o gronfa wahanol, gallai hyn egluro'r amrywiadau: yn wahanol i'r seintiau eraill sy'n taro'r pridd, y mae Cybi, fel Moses, yn taro craig,¹⁷ ac y mae

¹³ Exodus 17: 5-6

¹⁴ 'The Life of Saint Winefride by Robert of Shrewsbury' yn *Two Mediaeval Lives of Saint Winefride* gol. a chyf. R. Pepin a H. Feiss, t. 26.

¹⁵ D. S. Evans 'Y Bucheddau' yn *Y Traddodiad Rhyddiaith yn yr Oesau Canol* gol G. Bowen (Caerfyrddin: Gwasg Gomer, 2015) t. 247 [Ar-lein] Ar gael ar: <https://llyfrgell.porth.ac.uk/View.aspx?id=1635~4p~QbzAupJt> <Cyrcwyd 28 Gorffennaf 2020>

¹⁶ E. R. Henken, *Traditions of the Welsh Saints*, tt.19-20

Y mae enghraifft yn 'Vita Sancti Cadoci' yn *Vitae Sanctorum Britanniae* gol. A. W. Wade-Evans, t. 95

¹⁷ 'Vita Sancti Kebii' yn *Vitae Sanctorum Britanniae* gol. A. W. Wade-Evans, t. 245

enghreiffitiau o'r sant yn gweddïo ar yr un pryd â tharo'r ddaear,¹⁸ ychwanegiad sy'n atgyfnerthu'r cysyniad mai Duw, nid y sant ei hun, sy'n achosi'r llif o ddŵr. Gan fod Duw yn gyfrifol am greu'r ffynhonnau, nid oes rhaid i'r sant ei hun daro'r ddaear. Ar ôl cael cyfarwyddiadau (ac felly caniatâd) gan Gadog, defnyddia ei ddisgybl, Tylywai, ei fagl i gael dŵr i Gadog a'i ddisgyblion.¹⁹ Rhy Deiniol ddŵr o afon Iorddonen ar y ddaear ar ôl ei tharo â'i fagl ac efallai oherwydd y dŵr sanctaidd, sy'n dod o'r afon lle y bedyddiwyd yr Iesu, tyf 'a most beautiful tree' yn ogystal â ffynnon.²⁰ Er mwyn darparu dŵr i'w gymydog, Terddi, nid taro'r ddaear y mae Dewi ond yn symud y pridd â'i fagl.²¹ Fodd bynnag digwydd yr amrywiad mwyaf rhyfedd ym muchedd Tathan, lle y gwasga ei geffyl eu traed yn y ddaear a thardd ffynnon. Y mae'r anifail yn gweithredu yn ôl ewyllys Duw ac yn ychwanegol at greu ffynnon, y ceffyl sy'n dangos iddynt lle y dylent adeiladu mynachlog²² a cheir enghreifftiau eraill o anifail sy'n dangos ble i adeiladu addoldy ym mucheddau Collen ac Ieuan Gwas Badrig.²³

Er gwaethaf yr amrywiadau bychain yn y motiff, fel yn achos Moses, y prif reswm y tu ôl i'r sant dreiddio'r ddaear i greu ffynnon yw cael dŵr angenrheidiol mewn lle cras. Weithiau y mae hyn yn digwydd oherwydd bod angen dŵr ar feudwyfa neu fynachlog newydd, i dorri syched wrth i'r sant deithio neu fel ymateb i gais rhywun arall, fel mewn achos Terddi. Crea Illtud ffynnon gyda'i fagl oherwydd diffyg dŵr yfed ffres ar yr arfordir.

Trwy weddïau'r sant yn unig, heb orfod defnyddio ei fagl, y gall ffynnon ymddangos i dorri syched hefyd, megis yn *Historia o Uched Dewi*: 'Ac yna y gwediawd Dewi ar yr Arglwyd,

¹⁸ 'Vita Sancti Gundleii' yn *Vitae Sanctorum Britanniae* gol. A. W. Wade-Evans, t. 181

¹⁹ 'Vita Sancti Cadoci' yn *Vitae Sanctorum Britanniae* gol. A. W. Wade-Evans, 89

²⁰ 'Legenda 9 Lectionū de Scto Daniele Epō Bangorēsi' yn *Lives of the British Saints IV* gol. S. Baring-Gould a J. Fisher, t. 389

²¹ 'Rhygyfarch's Life of David' gol. a chyf. R. Sharpe a J. R. Davies yn *St David of Wales: Cult, Church and Nation* gol. J. W. Evans a J.M. Wooding

²² 'Vita Sancti Tatheii' yn *Vitae Sanctorum Britanniae* gol. A. W. Wade-Evans, t. 278

²³ 'Buchedd Collen' yn *Lives of the British Saints IV* gol. S. Baring-Gould a J. Fisher, t. 378

'Buchedd Ieuan Gwas Badrig' yn *Lives of the British Saints IV* gol. S. Baring-Gould a J. Fisher, t. 426

ac yn diannot y kyuodes ffynnawn eglur.’²⁴ Crëir ffynnon yn yr un modd ar gyfer bedydd Cadog. Yn dilyn cwynion gweision y brenin Gwynllyw, sef tad Cadog, am y daith hir i nôl dŵr, arweinia Meuthi (enw arall ar Dathan) weddi a darpara Duw ffynnon.²⁵ Ar y llaw arall, ymddengys ffynnon ar gyfer bedydd Dewi yn ddigymell heb angen i neb weddio,²⁶ efallai fel modd o ddangos rhagoriaeth Dewi dros y seintiau eraill. Ceir enghreifftiau ymhellach yn ei fucheddau sy’n pwysleisio ei fawredd; ni all Gildas bregethu o flaen Non pan oedd yn feichiog ac yr oedd yn rhaid i Badrig adael Glyn Rosin er na chât Dewi ei eni am 30 o flynyddoedd.²⁷

Ar ôl iddo gyffwrdd â chroen Dewi, datblyga’r dŵr ei ffynnon bedydd bwerau iachusol. Yn ystod ei fedydd, iacheir golwg yr wynepglawr, Mobi, sy’n dal y baban Dewi ar gyfer ei fedydd, digwyddiad a gyfeirir ato nid yn unig yn ei fucheddau Lladin a Chymraeg ond hefyd gan sawl bardd, megis Rhisiart ap Rhys:

Dŵr ffons a gaed ar y ffydd,
Dwyn golwg i’r dyn gweilydd.²⁸

Yn ôl y fuchedd Ladin, dasgodd y dŵr ar ei wyneb deirgwaith, sydd yn cynrychioli’r Drindod siŵr o fod, ond yn y fuchedd Gymraeg, golchodd ei wyneb â’r dŵr.²⁹ Cyfeiria Ieuan ap Rhydderch at y newid yn rhinwedd y dŵr a’r ffaith y gallai iacháu unrhyw un o hynny ymlaen:

Duw wrth fedyddiaw Dewi
A wnaeth ffons o ddwfr i ni.³⁰

²⁴ *The Welsh Life of David* gol. D. Simon Evans, t. 6

Ceir rhagor o enghreifftiau o ffynnon yn cael ei chreu trwy weddïau sant yn Atodiad C, t. 68

²⁵ ‘Vita Sancti Cadoci’ yn *Vitae Sanctorum Britanniae* gol. A. W. Wade-Evans, t. 31

²⁶ ‘Rhygyfarch’s Life of David’ gol. a chyf. R. Sharpe a J. R. Davies, t. 117

²⁷ *ibid*, tt. 111-15

²⁸ Rhisiart ap Rhys, Cerdd 19 ‘Moliant i Ddewi’ ll. 7-8 yn *Seintiau Cymru/Welsh Saints* [Ar-lein] Ar gael ar <https://www.welshsaints.ac.uk/theedition/> <Cyrchwyd 10 Ebrill 2021>

Awgryma Eurig Salisbury yn y nodiadau fod ‘gweilydd’ yn golygu ‘anaf’, n. 9

²⁹ ‘Rhygyfarch’s Life of David’ gol. a chyf. R. Sharpe a J. R. Davies, t. 117

The Welsh Life of David, gol. D. Simon Evans, t. 3

³⁰ Ieuan ap Rhydderch, Cerdd 18, ll. 31-32 yn *Medieval Welsh Poems to Saints and Shrines* gol. Barry J. Lewis (Dublin: School of Celtic Studies, Dublin Institute for Advanced Studies, 2015)

Datblyga afon Iorddonen rinweddau iachusol ar ôl i'r Ysbryd Glân ymddangos ar ddiwedd bedydd yr Iesu, gan roi pwerau iachusol i'r Iesu a'r afon.³¹ Iachâ'r Iesu ddyn dall hefyd trwy roi cymysgedd o'i boer a phridd ar ei lygaid a phan fo'r dyn yn ei olchi i fwrdd ym Mwell Siloam, gall weld.³² Y mae hyn ychydig yn wahanol ond defnyddir hylif sydd â chysylltiad â'r Iesu cyn y weithred o olchi. Diddorol yw nodi nad oes cofnod ym muchedd Cadog o ddŵr ei ffynnon fedydd yn iacháu er gwaethaf cyffwrdd â chroen y sant ond yn lle hynny, ar ôl neidio o freichiau ei fam, 'in three leaps flew to the aforesaid well without conveyance of any one and dipped himself thrice in the water in the name of the Holy Trinity.'³³

Y mae enghreifftiau eraill o gyffyrddiad â sant yn troi ffynnon yn un sanctaidd sydd â phwerau iachusol.³⁴ Yng nghywydd Dafydd ap Llywelyn ap Madog, sydd bellach yr unig ffynhonnell sy'n cofnodi'r traddodiadau am Ddyfnog, ni sonnir am darddiad y ffynnon ond awgryma'r bardd bod y rhinweddau iachusol yn tarddu o benydio Dyfnog yn y dŵr oer:

Oerni y dŵr arnad oedd,
Garw gadarn o'r graig ydoedd.
Hyn a droes, fawr einioes fri,
Uchod yn iechedd inni.³⁵

Y mae'r arfer o wneud penyd yn nŵr ffynnon yn thema cyffredin ym mucheddau'r saint. Cyfeirir at Illtud yn ymdrochi yn nŵr oer yn ddigon hir iddo ddweud pader deirgwaith³⁶ ac mewn awdl-gywydd i Ddewi gan Lewys Glyn Cothi, y mae'r llinell, 'A phenyd ar lan ffynnon'³⁷ er nad oes sôn am hyn ym mucheddau Dewi.

³¹ Mathew 3: 16

³² Ioan 9: 6-7

³³ 'Vita Sancti Cadoci' yn *Vitae Sanctorum Britanniae* gol. A. W. Wade-Evans, t. 31

³⁴ Gweler Atodiad C, t. 69

³⁵ Dafydd ap Llewelyn ap Madog, Cerdd 7, ll 55-58 yn *Medieval Welsh Poems to Saints and Shrines* gol. Barry J. Lewis

³⁶ 'Vita Sancti Illuti' yn *Vitae Sanctorum Britanniae* gol. A. W. Wade-Evans, t.202

³⁷ Lewys Glyn Cothi, Cerdd 5 'Awdl-gywydd i Ddewi Sant ll. 24 yn *Seintiau Cymru*

Rhy Brynach rinweddau iachusol i ffynnon trwy olchi ei friwiau ynddi. Y mae'r sant yn gwrthod merch uchelwr, sy'n ymateb trwy anfon dynion ar ei ôl, ac y maent yn ei drywanu â gwaywffon. Prin iawn y mae sant gwrywaidd yn cael ei anafu gan ferch sy'n ceisio ei ddenu; gan amlaf, y ferch sy'n cael ei niweidio, megis gwraig Illtud, a gafodd ei dallu.³⁸ Ni wyddys sut y crëwyd y ffynnon yn wreiddiol ond ar ôl dod i gyffyrddiad â gwaed y sant, try yn ffynnon iachusol. Oherwydd y digwyddiad hwn, y mae enw newydd arni, *Fons Rubeus*, sef Ffynnon Goch ac er iddi iacháu clefydau, gwella clwyfau'n syth.³⁹

Cofnoda'r testunau fod Dewi'n Cristioneiddio ffynnon 'gwenwynig' yng Nghaerfaddon, gan droi'r dŵr yn dwym ac iachusol. Y mae'r ffynnon yn dyddio o gyfnod y Rhufeiniaid a chyfeiria'r gwenwyn at ddefnydd y ffynnon gan baganiaid fel rhan o'u crefydd. Cafodd y dŵr ei rinweddau newydd ar ôl cael ei fendithio gan Ddewi a newidir yr enw yn Ennaint Twymyn. Y mae'n rhaid bod y wyrth yn adnabyddus iawn a bod y bobl ganoloesol yn credu ynddi gan fod sôn amdani mewn nifer o gerddi:

Yr ennaint twymm wyrennig,
Ni derfydd, tragywydd trig.⁴⁰

Dewi agos bendigodd,
O'n bodd, yr ennain baddon.⁴¹

Yn ôl pob tebyg tardd ffynnon o waed gwas Cathen. Nid oes buchedd i Gathen ar gael ond mewn cywydd iddo gan Dafydd Epynt, y mae'r llinellau canlynol:

Ond ni wŷr un dan y rhod
I'th dir a wnaeth Duw erod.
Tydi'n gyntaf a gafas
Dŵr du o waed ir dy was⁴²

³⁸ 'Vita Sancti Iltuti' yn *Vitae Sanctorum Britanniae* gol. A. W. Wade-Evans, tt.217 a 219

³⁹ 'Vita Sancti Bernachii' yn *Vitae Sanctorum Britanniae* gol. A. W. Wade-Evans, t. 7

⁴⁰ Iolo Goch Cerdd 4 'Mawl i Ddewi Sant' ll. 67-68 yn *Seintiau Cymru*

⁴¹ Lewys Glyn Cothi Cerdd 5 'Awdl-gywydd i Ddewi Sant ll. 27-28 yn *Seintiau Cymru*

⁴² Dafydd Epynt, Cerdd 4, ll. 27-30 yn *Gwaith Dafydd Epynt*

Y mae awgrym yma i was ifanc Cathen farw a lle y cwmpodd ei waed, tarddodd ffynnon yn y fan a'r lle. Mewn cerddi eraill dynoda 'dŵr du' ddŵr gwenwynig⁴³ ond o ystyried y llinellau uchod, y mae'n rhaid cytuno â Barry Lewis bod y bardd yn disgrifio dyfnder tywyll y ffynnon.⁴⁴ Yn y gerdd hon, fel sy'n digwydd yn y bucheddau ac mewn cerddi i seintiau eraill, pwysleisir mai Duw a greodd y ffynnon ond yn anffodus dyma'r unig ffynhonnell o wybodaeth am ei draddodiad ac nid oes rhagor o fanylion yn y gerdd. Fodd bynnag, fel y dywed Owen Thomas, nod y gerdd fyddai atgoffa'r gynulleidfa am y digwyddiadau yn hanes Cathen gan y byddent eisoes yn gyfarwydd â'i fuchedd.⁴⁵

Crëir ffynnon mewn modd anarferol iawn gan Samson a gofnodwyd ym muchedd Illtud. Ar ôl i esgobaeth Dol gael ei chynnig i Samson, y mae mor drist am adael ei athro, dechreuwa wylo ac o'i ddagrau tardd ffynnon.⁴⁶ Yn rhyfedd ni sonnir am hyn ym muchedd Samson, lle y crea ei ffynhonnau gan ddefnyddio ei fagl a thrwy weddio.⁴⁷ Gan fod y digwyddiad ym muchedd Illtud, efallai mai pwysleisio pwysigrwydd Illtud oedd y bwriad. Y mae hefyd yma atsain o Badrig yn gorfod gadael Glyn Rhosyn i wneud lle i Ddewi er nad oes sôn penodol am ddagrau ym muchedd Dewi. Serch hynny, yng ngherdd Gwynfardd Brycheiniog i Ddewi, y mae Padrig yn llenwi Llech Lafar â'i ddagrau oherwydd bod rhaid iddo adael:

Edewis Padrig drwy ddig ddagrau
Llonaid Llech Llafar hygar hyglau⁴⁸

Y mae'r esboniad hwn yn cymryd bod 'llonaid' yn dynodi'r nifer fawr o ddagrau Padrig.

Awgryma Ann Parry Owen y gallai'r gair gyfeirio at broffwydoliaeth yn ymwneud â'r Llech

⁴³ Lewys Glyn Cothi, Cerdd 13, ll. 17 yn *Medieval Welsh Poems to Saints and Shrines*, gol. Barry J. Lewis

⁴⁴ *Medieval Welsh Poems to Saints and Shrines* gol. Barry J. Lewis, t. 311

⁴⁵ *Gwaith Dafydd Epynt*, gol. Owen Thomas, t.95

⁴⁶ 'Vita Sancti Illuti' yn *Vitae Sanctorum Britanniae* gol. A. W. Wade-Evans, t. 215

⁴⁷ *The Life of St. Samson of Dol* gol. a chyf. T. Taylor, tt.43 a 52

⁴⁸ Gwynfardd Brycheiniawg a'i cant, Canu i Ddewi, ll. 238-39 yn *Gwaith Llywelyn Fardd I ac Eraill o Feirdd y Ddeuddegfed Ganrif*, gol. K. A. Bramley et al (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1994)

Lafar a gafodd ei gwireddu pan adawodd Padrig hefyd⁴⁹ ond os felly, nid oes cofnod amdani bellach. Ni ddaethpwyd o hyd i darddiad y motiff o greu ffynnon gyda dagrau ond defnyddia Mair Fadlen ei dagrau yn lle dŵr i olchi traed yr Iesu yn nhŷ'r Pharisead.⁵⁰

Y mae'n bosibl i'r digwyddiad gynrychioli cofeb barhaol, rhan ohono ei hunan, yr oedd Samson eisiau gadael yn ei wlad ond y mae cofnod am Ddewi 'brimming with daily well-springs of tears' i amlygu ei ddefosiwn.⁵¹ Oherwydd i fuchedd Dewi gael ei hysgrifennu tua hanner can mlynedd cyn buchedd Illtud, y mae posibilrwydd ei fod yn fenthyciad o'r un traddodiad.

O gymharu â'r seintiau gwrywaidd, nid oes cynnifer o fanylion am greu ffynhonnau'r santesau yn y testunau canoloesol. Ac eithrio Gwenfrewy, sydd â dwy fuchedd Ladin ac un Gymraeg, nid oes bucheddau ar gael i gael gwybodaeth am ffynhonnau'r santesau eraill.⁵² Weithiau y mae sôn amdanynt ym mucheddau'r seintiau gwrywaidd ac ym marddoniaeth Beirdd yr Uchelwyr ond gan amlaf nid oes manylion am sut y cafodd y ffynhonnau eu creu.

Er bod traddodiadau wedi'u cofnodi'n fwy diweddar am santesau yn troi ffynhonnau'n sanctaidd ac iachusol trwy eu defnyddio at wahanol bwrpasau fel y gwna'r seintiau gwrywaidd, trwy gael eu merthyru yw'r unig ffordd o greu ffynnon sy'n cael ei thrafod yn y testunau dan sylw.⁵³ Adnabu Francis Jones fwy na chanrif a hanner yn ôl fod patrwm i fuchedd santesau Cymru: ffy'r ferch o'r dyn sy'n bygwth ei gwryfydod; ar ôl iddo ei dal, tyr y dyn ei phen ymaith; ymddengys ffynnon sanctaidd ac weithiau y mae'r ferch yn cael ei hatgyfodi ac yn byw am flynyddoedd wedi'r digwyddiad.⁵⁴

⁴⁹ A. P. Owen Gwynfardd Brycheiniog, 'Canu i Ddewi' yn *Seintiau Cymru* n.137

⁵⁰ Luc 7:37-38

⁵¹ 'Rhygyfarch's Life of David' gol. a chyf. R. Sharpe a J. R. Davies, t. 129

⁵² Y mae gan Felangell fuchedd hefyd ond ni sonnir am ffynnon.

⁵³ Gweler Atodiad C, t. 69

⁵⁴ F. Jones, *The Holy Wells of Wales*, t. 38

Efallai fod yr un cynllun bras i'r hanesion ond y mae'r manylion am sut y mae'r ffynhonnau'n cael eu creu'n amrywio ychydig, hyd yn oed mewn gwahanol gofnodion am yr un santes. Yn ôl y traddodiadau a gofnodir yn y bucheddau a'r farddoniaeth am Wenfrewy, ar ôl gwrthod sylw rhywiol Caradog, a oedd y tywysog neu'r brenin gan ddibynnu ar y testun, ffy Gwenfrewy ond cyn iddi gyrraedd diogelwch eglwys Beuno, y mae Garadog yn torri ei phen ymaith â'i gleddyf a thardd ffynnon yn y fan a'r lle. Ychwanega'r bucheddau Lladin a Chymraeg y manylion y newidir enw'r lle o Sychnant i Dreffynnon oherwydd y wyrth hon a melltithia Beuno Garadog, sy'n marw ac yn diflannu. Y mae'r disgrifiad ohono ym Muchedd Gwenfrewy yn Llanstephan 34 yn blwmp ac yn blaen: 'lynckaud y dayar ef a myned yr enaid ay gorph y vphern.'⁵⁵ Fodd bynnag yn fersiwn Peniarth 27ii o'r fuchedd: 'myned y korff yn llyn tawdd a'i lyngkv o'r ddayar ef a myned i enaid i vffern.'⁵⁶ Todda Caradog yn y bucheddau Lladin a buchedd Beuno hefyd ac ychwanega'r *Vita S. Wenefrede* y manylion 'as wax before fire'.⁵⁷ Er bod gan y bucheddau gwahanol yr un neges, y mae'n bosibl fod yr ysgrifennydd wedi ychwanegu'r motiff Beiblaidd. Cosba Duw'r anfad trwy eu toddi fel cwyr,⁵⁸ felly y mae'n rhesymol y gall Beuno, fel cyfryngydd ar y ddaear, wneud yr un peth ac efallai bod atsain o'r arfer o gynnu canhwyllau fel offrymau i Dduw a'r seintiau.

Yr oedd cadw eu purdeb yn hollbwysig i'r santesau, felly y mae Gwenfrewy'n gwrthod sylw Caradog ac yn esgus mynd i newid ei dillad i wisgo'n fwy addas i gyfarch rhywun o statws uwch fel Caradog er mwyn iddi ddianc. Cred Fiona Winward y gellir cymharu'r cyfrwystra a thwyll Gwenfrewy ag ymddygiad y merched yn y Mabinogi,⁵⁹ a chan nad oedd gwahaniaeth mawr rhwng chwedlau seciwlar a chrefyddol yn yr Oesoedd Canol, awgryma fod tarddiad

⁵⁵ 'Buchedd Gwenfrewy' yn *Lives of the British Saints IV* gol. S. Baring-Gould a J. Fisher, t. 402

⁵⁶ Jane Cartwright, 'The Welsh Versions of the Life of Gwenfrewy' yn *Saints in Wales* goln. Paul Russell a David Parsons (Cardiff: University of Wales Press, forthcoming)

⁵⁷ 'Vita Sancte Wenefrede' yn *Vitae Sanctorum Britanniae* gol. A. W. Wade-Evans, t. 293

⁵⁸ Y Salmau 68:2

⁵⁹ F. Winward, 'The Lives of St Wenefred (BHL 8447-8851) yn *Analecta Bollandiana*, Vol 117 (1999) 89-132, tt.107-08

Cymreig i'r rhan hon o'r chwedl. Eto i gyd, rhaid cydnabod bod y fersiwn Cymraeg o'r fuchedd sy'n goroesi yn dilyn fersiwn Lladin y Prior Robert yn agos iawn a bod llawer sy'n gyffredin rhwng *Buchedd Gwenfrewy* a thraddodiadau hagiograffiaidd ryngwladol am santesau eraill.

Yn y *Vita et translatio S. Wenefredae a Buchedd Gwenfrewy*, rhy Caradog ddewis olaf iddi; cael cyfathrach rywiol gydag ef neu gael ei lladd. Fel priodferch Crist, y mae Gwenfrewy yn ei wrthod eto a hyd yn oed yn ei herio i'w lladd: 'ni alaf i gymryd aral ... am hynny tyn dy gledyf a guna a vynnich o achos ny vynnaf neb onid ef.'⁶⁰ Yn y senario hon, y mae'n dangos ei nerth: nid dioddefydd ydyw ond merch benderfynol sy'n rheoli ei thynged ei hun. Y mae agwedd hon yn groes i ymddygiad merched cyffredin yr Oesoedd Canol ac felly amlygir ei gogoniant. Os na ddaeth y digwyddiad yn wreiddiol o draddodiad llafar Cymreig, y mae'n amlwg y cafodd ei dderbyn gan y Cymry erbyn y bymthegfed ganrif, gan yr ymddengys ym muchedd Gymraeg Gwenfrewy.

Yn y ddwy fuchedd uchod a hefyd yn *Historia o Uched Beuno*, glania pen Gwenfrewy yn yr eglwys ac arhosa ei chorff y tu allan iddi. Fodd bynnag y mae gan y Prior Robert ddisgrifiad hynod o'i phen yn rowlio i mewn i'r eglwys ac yn stopio wrth draed y bobl, a oedd yn gwrando ar y gwasanaeth. O ystyried iddo ysgrifennu'r fuchedd ar gyfer Gwarin, prior Eglwys Gadeiriol Caerwrangon, efallai ei fod wedi ychwanegu'r manylyn hwn i godi drama'r stori neu, fel y nodir yn y rhagymadrodd, ei fod yn tynnu ar ffynonellau hŷn llafar ac ysgrifenedig sy'n dangos ymwybyddiaeth o dirwedd yr ardal, y buasai wedi'i gweld pan ymwelodd i drefnu symud creiriau Gwenfrewy. Atgyfodir Gwenfrewy gan Feuno ac yn y *Vita et translatio S. Wenefredae a Buchedd Gwenfrewy*, tardd ffynnon lle y mae ei phen yn bwrw'r ddaear. Cred rhai ysgolheigion fod yr adrodd hwn o'i merthyru yn tarddu o chwedl yr Apostol Paul; ar ôl i'w ben gael ei dorri ymaith yn Rhufain, bwria yn erbyn y ddaear

⁶⁰ 'Buchedd Gwenfrewy' yn *Lives of the British Saints IV* gol. S. Baring-Gould a J. Fisher, t. 401

deirgwaith a thardd tair ffynnon, un ar bob safle. Fodd bynnag, yn astudiaeth ddiweddar Erik Inglis, y cofnod cynharach, sydd ar gael, o ferthyru'r Apostol Paul a tharddiad y tair ffynnon yw 1375 a ni allai Inglis ddod o hyd i gofnod o enw'r lle, *Tre Fontane* (tair ffynnon), yn gynharach na 1244.⁶¹ Gwyddys i'r Prior Robert ysgrifennu ei fuchedd yn 1140, felly nid yw ymchwil Inglis yn cefnogi tarddiad hwn y motiff.

Ar y llaw arall, ym marn rhai ysgolheigion megis Anne Ross, adlewyrcha hyn wreiddiau paganaidd a diddordeb arbennig y Celtiaid yn y pen. Nid oes cofnod ysgrifenedig am eu traddodiadau ond cyfeiria'r ysgrifenydd clasurol at arferion y Celtiaid cyfandirol. Cred Ross fod digon o dystiolaeth archeolegol a llenyddol bellach bod yr un arferion ym Mhrydain.⁶² Noda Ross hefyd fod pen wedi'i dorri ymaith yn symbol y grefydd baganaidd yn yr un modd y mae'r groes yn symboleiddio'r ffydd Gristnogol.⁶³ Ystyriai'r paganiaid y pen fel lleoliad grym bywyd a chartref i'r enaid, a allai barhau i fyw hyd yn oed ar ôl marwolaeth y corff ac y mae enghreifftiau o hyn mewn chwedlau canoloesol, megis y Mabinogi. Am saith mlynedd y mae pen Bendigeidfran yn difyrru'r Cymry sy'n llwyddo i oroesi'r frwydr yn Iwerddon⁶⁴ ac ymddengys y motiff o ben sy'n siarad yn y bucheddau hefyd. Y mae adeiladwr, sy'n cael ei dorfynnyglu gan ei gydweithwyr cenfigennus, yn ymateb i weddio Cadog trwy gerdded at y sant, gan gario ei ben, i adrodd hanes y digwyddiad.⁶⁵

Dichon fod arwyddocâd gwahanol dros y torfynnyglu yn y chwedl. Oherwydd y credid mai man cynhyrchu 'sberm' oedd ym mhennau pobl, y benywod yn ogystal â'r gwrywod, awgryma Jane Cartwright mai trwy dorri pen y santes ymaith, y mae ei herlidiwr yn ei

⁶¹ E. Inglis, 'Inventing Apostolic Impression Relics in Medieval Rome' yn *Speculum*, vol. 96(2), (2021), 309–366. [Ar-lein] Ar gael ar https://www-journals-uchicago-edu.ezproxy.uwtsd.ac.uk/doi/10.1086/713103#_i28 <Cyrrwyd 27 Gorffennaf 2021> tt. 349-53

⁶² A. Ross, *Pagan Celtic Britain: Studies in Iconography and Tradition* (London: Sphere Books Ltd, 1974) t. 100

⁶³ A. Ross, *Pagan Celts* (Rhuthin: John Jones Printing Ltd, 1998) t.154

⁶⁴ *Pedeir Keinc y Mabinogi* gol. Syr Ifor Williams, (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1930), tt. 44-45

⁶⁵ 'Vita Sancti Cadoci' yn *Vitae Sanctorum Britanniae* gol. A. W. Wade-Evans, t. 66

‘hysbaddu’ yn symbolaidd am beidio â chytuno i gael cyfathrach rywiol gydag ef. Y mae hyn yn golygu hefyd y bydd yn bur a di-ryw yn cyrraedd y nefoedd, fel yr angylion.⁶⁶

Yn ôl y *Vita S. Wenefrede a Historia o Uuched Beuno* fodd bynnag, â bod yn fanwl gywir, tardd ffynnon ar y safle lle y cwmp gwaed Gwenfrewy yn hytrach na’i phen. Ni chanfuwyd y motiff hwn yn y Beibl ond y mae enghraifft o’r gwrthwyneb, sef dŵr yn troi’n waed pan drawa Moses ei ffon yn nŵr afon Nîl.⁶⁷ Hefyd pan drywanir yr Iesu yn ei ochr ar ôl iddo farw ar y groes, llifa gwaed a dŵr, sy’n cynrychioli ei fywyd marwol a’i fywyd tragwyddol. Yn yr un modd, wrth i Garadog diweddu bywyd marwol Gwenfrewy, dynoda’r ffynnon ei ffydd a’i dadeni. Nid yw’n eglur a fodolai’r ddau draddodiad hwn ar yr un pryd neu a yw un wedi disodli’r llall ond y mae’n debyg fod y beirdd wedi derbyn amrywiad y Prior Robert:

Codi ei phen, lle cad ffynnon⁶⁸

Cyd â’i phen y cad ffynnon⁶⁹

Sonnir am ddwy ferch seciwlwr yn creu ffynhonnau iachusol ar ôl iddynt gael eu torfynyglu hefyd. Ym muchedd Dewi ymddengys Dunawd, merch Baia, sy’n frenin y Pictiaid. Nid dyn sy’n torri ei phen ymaith ond ei llysfam a lle y cwmp ei gwaed, tardd ffynnon sanctaidd ac, o hynny ymlaen, y mae enw Merthyr Dunawd ar y lle.⁷⁰ Rhyfedd yw nodi er ei bod yn wryf ac yn ddiniwed, yn wahanol i Wenfrewy, sy’n hyfforddi i fod yn lleian pan gaiff ei merthyru, ni fyddai Dunawd wedi’i bedyddio hyd yn oed, ond efallai bod hyn yn egluro pam na chaiff Dunawd ei hadfywio. Cred Evans fod y digwyddiad yn cynrychioli aberth paganaidd,⁷¹ sy’n

⁶⁶ J. Cartwright, *Y Forwyn Fair, Santesau a Lleianod: Agweddau ar Wryfyddod a Diweirdeb yng Nghymru'r Oesoedd Canol* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1999) tt.121-22

⁶⁷ Exodus 7:20

⁶⁸ Tudur Aled, *Stori Gwenfrewy a’i Ffynnon*, ll. 19 *Two Mediaeval Welsh Poems: Stori Gwenfrewi a’i Ffynnon and Ffynnon Wenfrewi* gol. T. M. Charles-Edwards (Llandysul: Gwasg Gomer, 1971)

⁶⁹ Anghysbys, Cerdd 9, ll. 21 yn *Medieval Welsh Poems to Saints and Shrines* gol. Barry J. Lewis

⁷⁰ ‘Rhygyfarch’s Life of David’ gol. a chyf. R. Sharpe a J. R. Davies, t. 125

⁷¹ *The Welsh Life of David* gol. D. Simon Evans, t. 48 n.5

cyd-fynd â'r syniad o'r seintiau'n troi'r paganiaid at Gristnogaeth ac wrth gwrs fod Dewi'n ymdrin â ffynnon baganaidd Caerfaddon hefyd.

Ymhellach, ym muchedd Beuno y mae stori Tigiwg, merch brenin, sy'n cwmpo mewn cariad â gweithiwr a'i briodi. Torra ei gŵr newydd ei phen ymaith tra bo'n cysgu i'w hatal rhag darganfod ei ddosbarth cymdeithasol gwir. Lle cwmp ei gwaed, tardd ffynnon iachusol ac fe'i hatgyfodir gan Feuno.⁷² Nid yw'r stori hon yn dilyn y patrwm arferol chwaith. Gellir cymryd nad wryf ydyw gan ei bod yn briod, felly buasai wedi cysgu gyda'i gŵr fel rhan o seremoni'r briodas. Serch hynny y mae gan y briodas fraint am ei bod 'o rodd cenedl' ac y mae Tigiwg yn ddiniwed ac yn cael ei thwylo. Hefyd ar ôl cael ei hatgyfodi, y mae'n penderfynu gwasanaethu Duw yn hytrach na dychwelyd i'w bywyd breintiedig blaenorol. Y mae posibilrwydd i'r hanes hwn gael ei ychwanegu i godi statws Beuno'n unig a meddylia Jones (yn ddi-sail efallai) ei bod yn chwedl seciwlar yn wreiddiol.⁷³

Y mae gan bob un o'r ffynhonnau hyn yr un symbolaeth, fe'u crëwyd gyda gwaed person diniwed. Y mae'n syndod, felly, er bod gan chwedl ym muchedd Tathan y elfennau arferol, nid atgyfodir y wryf na chrëir ffynnon. Y mae bugeiles yn cael ei threisio a'i lladd gan ddau frawd ond yn lle atgyfodi'r ferch, gweddïa'r sant i ganfod hanes y digwyddiad, fel y gwnaeth Cadog. Y tro hwn, nid oes motiff y pen sy'n siarad ond daw'r brodyr at Dathan i gyfaddef eu trosedd. Awgryma Henken sawl rheswm dros y patrwm newydd ond, gan y pwysleisir eu bod gofyn am faddeuant a bydd rhaid iddynt benydio, y mae'n debygol fod yr ysgrifennydd eisiau dangos trugaredd Duw.⁷⁴ Gallai fod wedi newid y diwedd gwreiddiol o fwriad neu efallai nad oedd ganddo'r chwedl gyflawn.

⁷² 'Hystoria o Uuched Beuno' yn *Vitae Sanctorum Britanniae* gol. A. W. Wade-Evans, t. 20

⁷³ F. Jones, *The Holy Wells of Wales*, t. 38

⁷⁴ E. R. Henken, *The Welsh Saints: A Study in Patterned Lives* tt.57-58

Yn anffodus, er bod cerddi sy'n sôn am ffynhonnau'r santesau eraill, y mae manylion am eu tarddiad yn brin ac eithrio un gerdd am Ddwynwen sy'n cadarnhau mai rhodd gan Dduw oedd ei ffynnon:

Duw (dy ras ydyw dy rent)
Cyfiawn, i ti y cafas
Cur a ffynnon loywgron las.⁷⁵

Pwysleisia'r bucheddau a'r cerddi mai cyfryngwr yn unig yw'r sant ac amlyga mai trwy wyrth y sant, ac felly nid yn naturiol, ffurfiwyd bob ffynnon. Fe'u crëir yn chwap: 'a fountain burst forth on the spot',⁷⁶ ac yn aml mewn lle cras: 'a large fountain broke out in a dry place',⁷⁷ Gan amlaf pwysleisir y ffaith nad oedd y ffynhonnau'n bodoli gynt: 'ymdangosses ffynnyawn o'r dayar, lle ny buassei ffynnyaon eiroet.'⁷⁸ Er bod awgrym bod y bobl yn ymwybodol o gefinder paganaidd rhai o'r ffynhonnau fel yn y cerdd hwn i Ddewi gan Lewys Glyn Cothi:

A'r Ennaint Twym o'r nant du
A groesaist drwy'r gwir Iesu.⁷⁹

Gall creu ffynnon ddangos natur ddialgar y sant a Duw a chyfeiria Gerallt Gymro hefyd at y gosb y gall y Cymry ei ddisgwyl am wylltio eu seintiau.⁸⁰ Â Cadog i was Tathan yn y llawr dyrnu i gael glo i goginio ond nid yw'r gwladwr yn fodlon iddo fynd â fe oni bai ei fod yn cludo'r glo byw yn ei fantell. Llwydda i'w gludo fel hyn heb gael niwed ond gofynna i Dduw felltithio'r lle trwy losgi'r llawr dyrnu a'r dyn. Dyma a wna Duw a thardd 'a horrid fountain' yn ei le a arweinia at gors ddu, sydd yno hyd heddiw fel cofeb yn ôl y fuchedd.⁸¹ Yn wahanol

⁷⁵ Hywel Rheinalt, Cerdd 3, ll. 20-22 yn *Medieval Welsh Poems to Saints and Shrines* gol. Barry J. Lewis

⁷⁶ 'Vita Sancti Iltuti' yn *Vitae Sanctorum Britanniae* gol. A. W. Wade-Evans, t. 215

⁷⁷ 'Vita Sancti Cadoci' yn *Vitae Sanctorum Britanniae* gol. A. W. Wade-Evans, t.31

⁷⁸ *The Welsh Life of David* gol. D. Simon Evans, t.3

⁷⁹ Lewys Glyn Cothi, Cerdd 13, ll. 17-18 yn *Medieval Welsh Poems to Saints and Shrines* gol. Barry J. Lewis

⁸⁰ Cambrensis, Geraldus, *The Journey Through Wales and The Description of Wales* gol. a chyf. Lewis Thorpe (Harmondsworth: Penguin, 1978) t.87

⁸¹ 'Vita Sancti Cadoci' yn *Vitae Sanctorum Britanniae* gol. A. W. Wade-Evans, tt.37 a 39

i'r ffynhonnau a drafodir hyd yn hyn, er bod dŵr wedi cael ei gynhyrchu, ni allai neb ei ddefnyddio; rhybudd yw amcan y ffynnon hon.

Crëir ffynhonnau sanctaidd mewn amrywiaeth o ffyrdd, felly, weithiau trwy godi ffynnon newydd, weithiau trwy gysegru ffynnon a fodolai eisoes. Diddorol yw nodi y crëir ffynhonnau'r seintiau gwrywaidd o ganlyniad i'w gweithredoedd eu hunain mewn cymhariaeth â'r santesau sydd â rôl oddefol. Er y gellid dadlau bod Gwenfrewy, a saf yn ei rhych a herio Caradog, yn rheoli ei ffawd. Y mae'r santesau'n ferched sy'n dewis ffordd o fyw sy'n groes i ddisgwyliadau'r gymdeithas seciwlar, nid gwragedd fyddent, ac efallai mai dyma'r rheswm dros eu rôl lai gweithredol yn y testunau. Eto i gyd, y maent yn awyresau crefyddol sy'n ymddangos yn bwerus yn y bucheddau ac yn croesawu marwolaeth.

Ymdengys fod mwy o fotiffau Beiblaidd yn y bucheddau Lladin ond buasai'n anodd cloriannu faint sy wedi cael eu haddasu yn ystod y broses o drosglwyddo'r chwedlau llafar i femrwn a'u cyfieithu o'r Lladin i'r Gymraeg. Effeithiai arddull caeth ac agwedd wleidyddol y fuchedd ar ei neges a buasai'r chwedlau eu hunain wedi esblygu'n naturiol ar lafar yn y cymunedau Cymreig ac efallai bod mwy nag un amrywmiad yn cylchredeg.

Dywed Henken fod seintiau Cymru'n fwy tebyg i arwyr chwedlau llên gwerin na seintiau Ewrop, a gafodd eu merthyru⁸² ac fel sy'n digwydd yn y chwedlau seciwlar, ceir yn hanesion y seintiau elfennau onomastig sy'n cynorthwyo sefydlu'r chwedl. Cynhwysa'r motiffau nodweddion llên gwerin Cymru ond ceir hefyd briodoleddau Beiblaidd ac, yn ôl rhai ysgolheigion, elfennau sy'n perthyn i'r cyfnod cyn Crist. Mewn gwirionedd, felly, y mae'r motiffau'n debygol o fod yn gyfuniad o nifer o wahanol ddylanwadau ac o'r herwydd nid oes modd olrhain motiff i'w darddiad yn fanwl gywir. Eto, beth bynnag yw eu tarddiad, y mae'n

⁸² E. R. Henken, *The Welsh Saints: A Study in Patterned Lives*, t.1

amlwg fod y Cymry wedi'u derbyn gan fod yr un motiffau yn aml yn y bucheddau Cymraeg diweddarach a cherddi Beirdd yr Uchelwyr.

Pennod 2: Gwedd y Ffynhonnau

Fel rhan o dirwedd Cymru, y mae'r ffynhonnau sanctaidd yn dyst tragwyddol i wyrthiau'r seintiau. Amrywiant yn eang o ran ei siâp, eu maint a'u llif o ddŵr a dros y blynyddoedd y mae rhai ohonynt wedi cael eu newid a'u haddasu, trwy gael eu hehangu i hwyluso eu defnyddio neu'u haddurno gan addolwyr. A oes modd darganfod sut y ystyrid y ffynhonnau'r saint gan y bobl a sut wedd oedd ar y ffynhonnau yn yr Oesoedd Canol trwy archwilio'r testunau amdanynt?

Cynhwysa'r cerddi i'r seintiau ddisgrifiadau o'r ffynhonnau sanctaidd i raddau amrywiol ond nid oes llawer o fanylion am olwg y ffynhonnau yn y mwyafrif o fucheddau'r saint. Er hynny, crybwyllant, gan amlaf, ddŵr y ffynhonnau, gan ei ddisgrifio fel 'a most clear spring',⁸³ a 'phynnon loyuaf a thecaf';⁸⁴ nid dŵr arferol sydd yn ffynnon sant, felly.

Oherwydd ei fod yn rhodd gan Dduw, pwysleisir ei sancteiddrwydd a'i burdeb a chanodd Dafydd ap Llywelyn ap Madog fod dŵr Ffynnon Ddyfnog 'heb swnd o'r grwndwal',⁸⁵ gan nad yw'n cael ei lygru gan y pridd, er gwaethaf llif y dŵr. Ym muchedd Cadog hefyd, cyfeirir at ddŵr y ffynnon a gododd gan Tylywai fel 'living water',⁸⁶ disgrifiad y mae'r Iesu yn ei ddefnyddio pan fo'n gofyn i Samariad am ddiod wrth ffynnon: "Pe bait yn gwybod beth yw rhodd Duw, a phwy sy'n gofyn iti, 'Rho i mi beth i'w yfed', ti fyddai wedi gofyn iddo ef a byddai ef wedi rhoi i ti ddŵr bywiol."⁸⁷ Felly amlyga'r bucheddydd cysegredigrwydd y dŵr trwy ailadrodd geiriau o'r Beibl, sy'n cyfeirio at yr Ysbryd Glân, a roddodd bwerau iachusol i Afon Iorddonen yn dilyn bedydd yr Iesu.

⁸³ 'Vita Sancti Tathe'i' yn *Vitae Sanctorum Britanniae* gol. A. W. Wade-Evans, t. 283

⁸⁴ 'Buchedd Gwenfrewi' yn *Lives of the British Saints IV* gol. S. Baring-Gould a J. Fisher, t. 401

⁸⁵ Dafydd ap Llewelyn ap Madog, Cerdd 7, ll 17 yn *Medieval Welsh Poems to Saints and Shrines* gol. Barry J. Lewis

⁸⁶ 'Vita Sancti Cadoci' yn *Vitae Sanctorum Britanniae* gol. A. W. Wade-Evans, t. 89

⁸⁷ Ioan 4:10

Canmolir dŵr sanctaidd y Cristnogion ond ‘death-dealing water’⁸⁸ a ‘dwfyr llawn o wenwyn’⁸⁹ yw’r geiriau a ddefnyddir ym mucheddau Lladin a Chymraeg Dewi i ddisgrifio dŵr y ffynhonnau paganaidd yng Nghaerfaddon. Eglura R. Iestyn Daniel fod y gair ‘gwenwyn’ yma yn dynodi ‘drygioni,’⁹⁰ ond ar ôl iddo gael ei gysegru gan Ddewi, try’r dŵr yn ‘health-giving,’ ‘suitable for the bathing of bodies’⁹¹ a ‘dwymynn hyt Dyd Brawt.’⁹² Fodd bynnag nid oes sôn am Ddewi na’i wyrth mewn unrhyw deithlyfr na llyfr hanes swyddogol yn ôl Henken. Dichon fod ei fucheddwy yn ceisio codi statws Dewi, ac felly statws archesgobaeth Tyddewi, trwy ychwanegu stori am ffynhonnau twym Caerfaddon, a oedd yn dra hysbys bryd hynny. Eto, ganrifoedd yn ddiweddarach, mewn cerddi i Ddewi, yr oedd llawer o feirdd yn canu am yr Ennaint Twymyn,⁹³ sef enw’r dyfroedd yn dilyn ei wyrth. Os yw’r enw yn y farddoniaeth yn cyfeirio at y wyrth hon, fel y mae sawl ysgolhaig yn ei gredu,⁹⁴ y mae’n debyg y derbyniwyd y chwedl gan y Cymry.

Tyn y beirdd sylw at bwysigrwydd a statws rhai ffynhonnau sanctaidd trwy eu cymharu ag afonydd enwog. Cymhara Dafydd ap Llywelyn ap Madog ffynnon iachusol Dyfnog ag afonydd Seion ac Iorddonen. Fel y dywed Barry Lewis, yr oedd cymharu ffynhonnau â’r Iorddonen yn gyffredin ym marddoniaeth ganoloesol oherwydd i’r Iesu gael ei fedyddio ynddi ac o ganlyniad, credid fod yr afon yn meddu ar rinweddau iachusol. Mewn cywydd am Ffynnon Wenfrewy, cymhara Tudur Aled y ffynnon â’r Iorddonen ond coda statws y ffynnon ymhellach trwy ei chymharu ag afonydd Gardd Eden hefyd:

⁸⁸ ‘Rhygyfarch’s Life of David’ gol. a chyf. R. Sharpe a J. R. Davies, t. 121

⁸⁹ *The Welsh Life of David*, gol. D. Simon Evans, t. 4

⁹⁰ R. I. Daniel, ‘Y Ffynhonnau yng Nghanu’r Cywyddwyr’, t. 71

⁹¹ ‘Rhygyfarch’s Life of David’ gol. a chyf. R. Sharpe a J. R. Davies, t. 121

⁹² *The Welsh Life of David*, gol. D. Simon Evans, t. 4

⁹³ Er enghraifft, Lewys Glyn Cothi, Cerdd 13, ll. 17 yn *Medieval Welsh Poems to Saints and Shrines* gol. Barry J. Lewis

⁹⁴ Dafydd Johnston, Iolo Goch, ‘Mawl i Ddewi Sant’ yn *Seintiau Cymru*, n. 11 *Medieval Welsh Poems to Saints and Shrines* gol. Barry J. Lewis, t. 237 n.17-18

Teilynged, pan goded Gwen,
Tarddu ennaint Iorddonen;
Llai o ferw yn llif Aeron
Neu Euphrates no ffrwd hon;
Gihon yn dwyn y gwin da,
Phison, Tigris, on tagra;⁹⁵

Duw a greodd yr afonydd hyn wrth ffurfio'r byd,⁹⁶ felly y mae'r bardd yn pwysleisio mai Duw sy'n gyfrifol am y ffynnon bwysig hon hefyd. Awgryma T. M. Charles-Edwards fod y bardd yn amlygu bywyd Gwenfrewy fel lleian yn y disgrifiad hwn gan fod yr afonydd hyn yn cynrychioli gweithgareddau myfyriol bywyd mynachod yn yr Oesoedd Canol.⁹⁷

Yn ogystal â phriodoledd iachusol Ffynnon Wenfrewy yn y llinellau uchod, y mae sôn am lif cryf y dŵr. Ceir disgrifiadau o ffynhonnau eraill sydd â chyfaint mawr o ddŵr; yn ôl ei fucheddydd, tarddodd ffynnon fedydd Cadog 'which gushing forth very copiously made a river.'⁹⁸ Disgrifir Ffynnon Ddyfnog fel 'berw llawn'⁹⁹ a chanodd Gwynfardd Brycheiniog am afonydd ffynnon Dewi:

A ffynnon Ddewi a'i ffynhonnau – llawn,
Llawer un rhadlawn, ffrwythlawn ffrydau;¹⁰⁰

Fodd bynnag dŵr Ffynnon Wenfrewy sy'n cael y mwyafrif o'r sylw, efallai oherwydd ei phoblogrwydd o'r ddeuddegfed ganrif ymlaen. Sonia'r Prior Robert am y 'gushing water' ac am felin 'which never ceases to grind' sydd ar afon y ffynnon.¹⁰¹ Cofnoda Dr Johnson, a deithiodd trwy Ogledd Cymru yn 1774 fod yr afon yn gyrru pedair melin ar bymtheg ar hyd

⁹⁵ Tudur Aled, Stori Gwenfrewy a'i Ffynnon, ll. 31-36 yn *Two Mediaeval Welsh Poems* gol. T. M. Charles-Edwards

⁹⁶ Genesis 2:10-14

⁹⁷ Rhagymadrodd *Two Mediaeval Welsh Poems* gol. T. M. Charles-Edwards, tt. 4-5

⁹⁸ 'Vita Sancti Cadoci' yn *Vitae Sanctorum Britanniae* gol. A. W. Wade-Evans, t. 31

⁹⁹ Dafydd ap Llywelyn ap Madog, Cerdd 7, ll. 24 yn *Medieval Welsh Poems to Saints and Shrines* gol. Barry J. Lewis

¹⁰⁰ Gwynfardd Brycheiniog, Cerdd 26, ll. 226-27 yn *Gwaith Llywelyn Fardd I ac Eraill o Feirdd y Ddeuddegfed Ganrif* gol. Kathleen Anne Bramley et al

¹⁰¹ 'The Life of Saint Winefride by Robert of Shrewsbury' gol. gan R. Pepin a H. Feiss, t. 74

pellter o ddwy filltir¹⁰² ac yn dilyn arbrawf, honnir hefyd bod 1200 o dunelli o ddŵr yn llifo i'r ffynnon bob awr.¹⁰³

Portreada sawl bardd y dŵr byrlymus hwn fel pe bai'n 'berwi',¹⁰⁴ ond y mae disgrifiad rhagorol a manwl o'r clychau dŵr yn codi yn y gerdd hon gan fardd anhysbys:

Berwi o'r llawr, heb awr baid,
O'i chanol, eirw uchenaidd,
Bob un fel arian byw bydd,
Bob dau boglynnau glennydd,
Bob dri, uchel y gwelais,
Bob bedwar, llafar yw'r llais,
Bagadau diliau rhag dig,
Bronfron afalau brenfrig;¹⁰⁵

Cynhwysa'r gerdd hon ddisgrifiad o 'llais' y dŵr; llais Gwenfrewy neu lais pobl sydd wedi ymweld â'r lle o bosibl. Weithiau i gyfleu llawenydd fynnon sanctaidd, disgrifir sŵn y dŵr fel chwerthin:

Crechwen gwraidd crychwyn groywddwfr,
Coel iechyd ynt – clochau dwfr;¹⁰⁶

Fodd bynnag nid oedd dŵr pob ffynnon yn byrlymu; portreadir dŵr tawel a naws heddychlon Ffynnon Ddwynwen yng ngherdd Hywel Rheinalt:

Llyna ddŵr llonydd arab.¹⁰⁷

¹⁰² *Dr Johnson & Mrs Thrale's Tour in North Wales 1774* gol. Adrian Bristow (Wrexham: Bridge Books, 1995), t. 40

¹⁰³ Samuel Lewis, 'Holywell - Hyssington' *A Topographical Dictionary of Wales* (London: S Lewis, 1849) 430-440 [Ar-lein] Ar gael ar: <http://www.british-history.ac.uk/topographical-dict/wales/pp430-440> < Cyrchwyd 11 Gorffennaf 2021>

¹⁰⁴ Enghreifftiau'n cynnwys Wiliam Byrsinsia Cyfres o englynion, ll. 1 a 5, Robert Miltwn Cyfres o englynion, ll. 9 yn G. Hartwell Jones, *Celtic Britain and the Pilgrim Movement* (London: The Hon. Society of Cymmrodorion, 1912), t. 400

¹⁰⁵ Anhysbys, Ffynnon Wenfrewi, ll. 41-48 yn *Two Mediaeval Welsh Poems* gol. T. M. Charles-Edwards

¹⁰⁶ Tudur Aled, Stori Gwenfrewy a'i Ffynnon, ll. 53-54 yn *Two Mediaeval Welsh Poems* gol. T. M. Charles-Edwards

¹⁰⁷ Hywel Rheinalt, Cerdd 3, ll. 25 yn *Medieval Welsh Poems to Saints and Shrines* gol. Barry J. Lewis

Dŵr o'r ansawdd gorau sydd mewn ffynnon sanctaidd ac y mae'r bucheddau a barddoniaeth yn tystio i'w blas rhagorol. Yn ôl Syr Dafydd Trefor, y mae 'blas mêl' ar dŵr Ffynnon Ddeiniol.¹⁰⁸ Cofnoda bucheddydd Teilo i'r hen drigolion, a yfodd dŵr Ffynnon Teilo, honni 'that they did not drink water, but wine, so pleasant was its taste.'¹⁰⁹ Gofynna brenin digywilydd i Illtud yn wawdlyd am win neu fedd, gan wybod na fydd gan y mynach ddioddydd o'r fath. Fodd bynnag er bod y brenin yn yfed dŵr o'r ffynnon, gall flasau 'the tastes of divers liquors, especially wine and mead.'

Weithiau yn hytrach na meddu ar flas gwahanol, newidia'r dŵr yn gyfan gwbl¹¹⁰ naill ai am gyfnod cyfyngedig neu am byth. Newidia dŵr ffynhonnau Dewi'n win; ym muchedd Gymraeg Dewi â Deiniol a Dyfrig at Ddewi i'w ddarbwylllo i fynd i'r synod ond y mae Dewi eisiau iddynt rannu pryd o fwyd gydag ef yn gyntaf. Daw un o'i ddisgyblion â phiser o ddŵr ffynnon iddynt ac y mae'n newid yn win ar ôl iddo ei roi ar y bwrdd wrth ochr Dewi. Yn ychwanegol at ddangos pŵer Dewi, y mae'r bardd yn ei gymharu â'r Iesu, a drodd dŵr, a gasglwyd gan weision, yn win ar gyfer priodas. Yn ei fuchedd Lladin, gweddïa Dewi am ddŵr i bawb yn y fynachlog sy'n troi yn win i ddarparu cyflenwad parhaol o win i ddathlu'r cymun 'since the region produced no vines.'¹¹¹ Cofnoda Gerallt Gymro hefyd mai yn ystod ei oes, llifai Afon Alun â gwin a Phistyll Dewi â llaeth, er nad yw'n sôn am bwy oedd yn gyfrifol am y wyrth.¹¹²

Y mae cofnod yn *Anales de Margan*, y llifai Ffynnon Illtud ym Mro Gŵyr â llaeth am dair awr yn 1185 ac ymddangosodd menyyn ar ei hochr.¹¹³ Yn ôl y *Vita S. Wenefrede* hefyd, llifai

¹⁰⁸ Syr Dafydd Trefor, Cerdd 14, ll. 19 yn *Gwaith Syr Dafydd Trefor* gol. Rhiannon Ifans (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 2005)

¹⁰⁹ 'Vita Sancti Teliaui' yn *The Liber Landavensis, Llyfr Teilo, or the Ancient Register of the Cathedral Church of Llandaff* gol. W. J. Rees (Llandoverly: William Rees, 1840), t. 338

¹¹⁰ Gweler y tabl yn Atodiad C, t. 69

¹¹¹ 'Rhygyfarch's Life of David' gol. a chyf. R. Sharpe a J. R. Davies, t. 131

¹¹² Cambrensis, Geraldus, *The Journey Through Wales and The Description of Wales* gol. a chyf. Lewis Thorpe, t. 168

¹¹³ *Anales de Margan* yn E. R. Henken, *Traditions of the Welsh Saints*, tt. 133-14

Ffynnon Wenfrewy â ‘milky liquor’ am dridiau i ddathlu’r Ffrancwyr yn cael eu gyrru allan o Wynedd. Dichon fod y santes yn cefnogi’r bobl leol trwy gynhyrchu hylif maethlon, fel mam ond noda Jones fod dilynwyr yr hen grefydd yn ystyried llaeth yn elicsir cysegredig, felly y mae’n bosibl mai hen stori yw hon sy’n perthyn i hanes paganaidd y ffynnon ac nid i Wenfrewy. Ar ben hynny, gan fod y bucheddydd yn pwysleisio bod offeiriad yn dyst i’r wyrth ac ni ddigwyddodd y newid i wedd y dŵr oherwydd gwynt na glaw, y mae’n rhaid cytuno â Henken nad oedd pawb yn credu’r stori hyd yn oed yng nghyfnod y bucheddydd.

Fodd bynnag, rhodd gan Dduw oedd y dŵr ac unrhyw hylif arall a gynhyrchwyd gan y ffynnon, rhodd a ellid tynnu yn ôl os nad oedd y bobl yn ei pharchu. Flwyddyn ar ôl genedigaeth Cadog, try dŵr ffynnon ei fedydd yn fedd (o ran blas a lliw) ac yn yr ail flwyddyn llifa â llaeth. Y mae croeso i bawb ei yfed ond pan gystadla’r bobl am feddiant y ffynnon, dychwela’r hylif i’w ‘natural tastlessness.’¹¹⁴ Yma, o bosibl, y mae atsain o chwedl am Gynog: y mae’r mynachod eraill yn genfigennus pan rydd Duw ffynnon i Gynog, felly y maent yn torri ei ben ymaith, sy’n cwmpo yn y ffynnon. Yna yn groes i’r chwedlau lle y mae pen wedi’i dorri’n creu ffynnon, y mae’r Ffynnon Gynog yn mynd yn sych ar unwaith.¹¹⁵

Yn aml cofnodir bod dŵr ffynnon sanctaidd yn iachusol ond y mae’n meddu ar rinweddau arbennig eraill hefyd. Y mae’r ffynnon a gododd Dewi i Derddi yn rhoi ‘the coldest water, even in the hot season’, tra bo’r Ennaint Twymyn yng Nghaerfaddon yn gynnes ar ôl cael ei gysegru gan Ddewi. Y mae disgrifiad Wiliam Byrsinsia o Ffynnon Wenfrewy fel ‘badd cynnes’ yn rhyfedd o ystyried oerfel dŵr ond y mae’n debygol bod hyn yn gyfeiriad arall i’w wedd fyrlymus a’r teimlad cynnes o fod dan ofal y santes yn hytrach na thymheredd y dŵr.

¹¹⁴ ‘Vita Sancti Cadoci’ yn *Vitae Sanctorum Britanniae* gol. A. W. Wade-Evans, tt. 35 a 37

¹¹⁵ Cynog: texts yn *Seintiau Cymru* [Ar-lein] Ar gael ar: <https://welshsaints.ac.uk/wp-content/uploads/2015/10/Hugh-Thomas-on-Cynog.pdf> <Cyrcwyd 12 Mehefin 2021> t. 2

Darpara Ffynnon Illtud ddŵr ffres er ei bod mor agos at y môr, a honna bardd anhysbys nad yw dŵr Ffynnon Wenfrewy byth yn rhewi na chael ei effeithio gan y gwynt ychwaith:

Nis rhewodd y naws rhywyllt,
Nis lludd hynt glaw na gwynt gwyllt.¹¹⁶

Yn yr un modd, nid yw'r tywydd yn effeithio ar ddŵr ffynhonnau Tathan nac Illtud; noda eu bucheddau fod y dŵr yn llifo heb amhariad. Fodd bynnag, y mae gan ddŵr Ffynnon Wenfrewy bŵer arbennig arall. Cofnoda ei bucheddau mai bob blwyddyn, nes i Feuno farw, y mae'r dŵr yn cludo mantell wedi'i gwneud gan Wenfrewy ato trwy afon y ffynnon a dros y môr, gan gyrraedd pen ei thaith yn hollol sych. Ychwanega'r *Vita S. Wenefrede* fod maen arbennig yng nghanol afon y ffynnon, lle yr oedd Beuno'n arfer gweddïo, ac o'r lle hwn dylai'r fantell gychwyn ar ei thaith. Yn rhyfedd, yn ôl y Prior Robert yn y *Vita et Translatio S. Wenefredae* nid yw gan y maen yr un arwyddocâd; 'one stone which then, by chance, was found there', y mae Gwenfrewy'n sefyll arno tra bo Beuno'n egluro am anfon mantell. Er gwaethaf y gwahaniaeth, ystyrir y maen fel gwrthrych sanctaidd sy'n dod o dan ofal y santes, felly, yn ôl y fersiwn anhysbys o'r fuchedd, pan fo marchog o Ffrainc eisiau ei symud i sefydlu melin, ni all ei weithwyr ei symud. Gwylltia'r marchog a chicio'r maen felly cafodd ei gosbi trwy gael ei wneud yn gloff.

Disgrifir pethau sanctaidd eraill sydd yn nŵr Ffynnon Wenfrewy megis y cerrig wedi'u staenio â'i gwaed ar waelod y ffynnon. Arwydd ei merthyru ydynt yn ôl y bucheddau a ni all hyd yn oed llif cryf y dŵr olchi'r staeniau ymaith.¹¹⁷ Canodd Ieuan Brydydd Hir amdanynt: 'Dŵr garw, a gwaed ar gerrig',¹¹⁸ felly mae'n amlwg mai yn ei gyfnod, yr oedd y bobl yn dal

¹¹⁶ Anhysbys, Ffynnon Wenfrewi, ll. 59-60 *Two Mediaeval Welsh Poems* gol. T. M. Charles-Edwards

¹¹⁷ 'Vita et Translatio S. Wenefredae' yn *Two Mediaeval Lives of Saint Winefride* gol. a chyf. R. Pepin a H. Feiss, t. 43

¹¹⁸ Ieuan Brydydd Hir, Cerdd 9 ll. 10 yn *Gwaith Ieuan Brydydd Hir* gol. M. Paul Bryant-Quinn (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 2000)

i gredu yn y chwedl hon. Dywed Baring-Gould a Fisher bod y staen y cael ei achosi gan wythiennau fferrus yn y cerrig ynghyd â mwsogl rhuddgoch, *Muscus subrubeus*, sy'n glynu wrth y cerrig.¹¹⁹ Yn ôl Thomas Pennant Ceir mwsogl arall yn y ffynnon hefyd o'r enw *Jungermannia asplenioides*, a adwaenir, yn ôl Baring-Gould a Fisher, fel 'Saint Winefride's hair'.¹²⁰ Noda buchedd Gymraeg Gwenfrewy fod ganddo 'arrogylfaur megis ystor',¹²¹ ond yn ôl ffynonellau diweddarach, arogl fioled sydd arno.¹²² Y mae'n debyg bod Tudur Aled yn cytuno bod yr arogl y ffynnon yn felys, gan ei ddisgrifio fel mêl ond oherwydd ei bod yn sôn hefyd am win a'r nefoedd, efallai mai arogl melys aroglarth y mae'n cyfeirio ato:

Awel Dibr neu wlad Ebryw,
Aroglau nef i'r glyn yw;
Ager gwin o'i gro a gaid,
Fal gwynt o fêl y gyntaid;¹²³

O ran pennau'r ffynhonnau, ceir ambell ddisgrifiad mewn barddoniaeth ond gall fod yn anodd ei ddehongli. Yn ôl Hywel Rheinallt, y mae gan Ddwynwen 'ffynnon loywgron las',¹²⁴ ar Ynys Llanddwyn. Y mae'n hawdd deall siâp y ffynnon ond gall 'glas' gyfeirio at liw'r dŵr sy'n adlewyrchu'r awyr neu arian gleision wedi'i daflu yn y dŵr gan addolwyr, yn enwedig gan fod y bardd yn sôn am arian yn y llinell nesaf. Ar y llaw arall, gall 'glas' ddynodi glaswellt sy'n tyfu o amgylch y ffynnon gron syml. Yn yr un gerdd, y mae sôn am 'eglwys wen, seren sir',¹²⁵ felly mae'n amlwg y denwyd pobl i'r ynys i weld ei heglwys, a oedd wedi'i wyngalchu yn ôl arddull eglwysi yn yr Oesoedd Canol, yn ogystal â'r ffynnon gerllaw. Nid yw'r eglwys yn bodoli bellach a nodir gan gronfa ddata Cofnod Henebion Cenedlaethol

Mae Tudur Aled hefyd yn cyfeirio at y cerrig gwaedlyd: Stori Gwenfrewy a'i Ffynnon, ll. 41 a 44 *Two Mediaeval Welsh Poems* gol. T. M. Charles-Edwards ll. 41 a 44

¹¹⁹ *Lives of the British Saints III* gol. S. Baring-Gould a J. Fisher, t. 191

¹²⁰ *ibid.*, t. 191 n. 2

¹²¹ 'Buchedd Gwenfrewi' yn *Lives of the British Saints IV* gol. S. Baring-Gould a J. Fisher, t. 403

¹²² Samuel Lewis, 'Holywell - Hyssington' *A Topographical Dictionary of Wales*

Lives of the British Saints III gol. S. Baring-Gould a J. Fisher, t. 191

¹²³ Tudur Aled, Stori Gwenfrewy a'i Ffynnon, ll. 37-40 *Two Mediaeval Welsh Poems: Stori Gwenfrewi a'i Ffynnon and Ffynnon Wenfrewi* gol. T. M. Charles-Edwards

¹²⁴ Hywel Rheinallt, Cerdd 3, ll. 22 yn *Medieval Welsh Poems to Saints and Shrines* gol. Barry J. Lewis

¹²⁵ *ibid.*, ll. 17

Cymru (CHCC) bod yr adfeilion sydd ar y safle, yn dyddio o'r unfed ganrif ar bymtheg,¹²⁶ felly mae'n rhaid bod y bardd yn sôn am eglwys gynharach. Yn ôl pob tebyg, yr oedd hefyd ddelw euraidd o Ddwynwen ar Ynys Llanddwyn, naill ai yn yr eglwys neu wrth y ffynnon, gan fod y gerdd yn dechrau â'r llinellau hyn:

Y ferch o nef, Frychan waed,
Ddiweirdrefn g'ruaidd eudraed.¹²⁷

Cyfeiria Syr Dafydd Trefor hefyd at y ddelw, sydd yn gwisgo offrymau pererinion diolchgar yn ôl pob tebyg:

Fo roed o'i brig gleinigion,
Fo roed aur teg ar draed hon;
Botymau a gleiniau glân
Ar ei phais a orffwysan,¹²⁸

Sonia Lewys Glyn Cothi am ddelw o Non (neu'r Forwyn Fair o bosibl) sydd yn y capel ger Ffynnon Non yn ei gywydd am bererindod Edudful ferch Gadwgon. Fe'i disgrifir fel '[y] ddelw wen' ond nid yw'n eglur a yw'r bardd yn disgrifio lliw'r ddelw, neu'n cyfeirio at ei santeiddrwydd. Hefyd, gan ddibynnu ar sut y dehonglir geiriau'r gerdd hon, y mae'n bosibl bod cysgod ar Ffynnon Non yn yr Oesoedd Canol, a oedd yn debyg i'r un sydd ganddi erbyn hyn. Yn ôl CHCC, disodlwyd yr hen gysgod gan yr un presennol, sy'n ffurfio bwa dros y ffynnon, yn y ddeunawfed ganrif. Cyfieitha Cartwright y llinell 'bwrw ei phen lle bo'r ffynnon' fel 'rhy ei phen yn y ffynnon,'¹²⁹ felly efallai bod y llinell yn cyflew bod rhaid i Edudful roi ei phen o dan orchudd isel y ffynnon i gyrraedd y dŵr sanctaidd.

¹²⁶ Coflein: Cronfa ddata ar-lein Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru (CHCC) [Ar-lein] Ar gael ar: <https://coflein.gov.uk/cy/> <Cyrchwyd 22 Mai 2021>

¹²⁷ Hywel Rheinallt, Cerdd 3, ll. 1-2 yn *Medieval Welsh Poems to Saints and Shrines* gol. Barry J. Lewis

¹²⁸ Syr Dafydd Trefor, Cerdd 13, ll. 34 yn *Gwaith Syr Dafydd Trefor* gol. Rhiannon Ifans

¹²⁹ J. Cartwright, 'The Cult of St Non: rape, sanctity and motherhood in Welsh and Breton hagiography' yn *St David of Wales: Cult, Church and Nation* gol. J. W. Evans a J.M. Wooding

Y mae'n bosibl bod Dafydd ap Llywelyn ap Madog yn cyfeirio at wedd wahanol, a oedd ar Ffynnon Ddyfnog yn yr Oesoedd Canol, gan ei disgrifio fel 'pistyll o waith hapusteg'.¹³⁰ Awgryma Barry Lewis y gallai'r gair 'gwaith' gyfeirio at weithrediad y ffynnon neu o bosibl at adeiladwaith, a oedd o amgylch y ffynnon, nad yw'n bodoli bellach.¹³¹ Pan ymwelodd â'r ffynnon yn 1773, cofnoda Thomas Pennant: 'This fountain is enclosed in an angular wall, decorated with small human figures; and before it is the well for the use of pious bathers',¹³² felly y mae'n ddigon posibl bod y wal yno yn oes y bardd. Erbyn dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg pan welodd Richard Fenton y ffynnon, yr oedd mewn cyflwr wedi'i esgeuluso ond disgrifia'r onn a'r llwyfenni o amgylch llednant Ffynnon Ddyfnog a'r marmor a oedd ar waelod y baddon.¹³³

Yn yr un gerdd i Ddyfnog, dichon fod y bardd yn portreadu'r dŵr yn rhaeadru i lawr y craig i fasn y ffynnon:

Gradd y ffons o'i gwraidd a'i phen.¹³⁴

'Ffons' yw fynnon a gall y gair 'gradd' olygu 'llam'.¹³⁵ Er bod y ffynnon yn dal i raeadru, o ddisgrifiad y bardd, yr oedd y dŵr yn llifo o safle uwch yn ystod ei oes ac felly efallai bod llif y dŵr, sy'n cael ei ddisgrifio fel 'berw llawn',¹³⁶ a 'garw gadarn o'r graig',¹³⁷ yn gryfach bryd hynny.

¹³⁰ Dafydd ap Llywelyn ap Madog Cerdd 7, ll. 11 yn *Medieval Welsh Poems to Saints and Shrines* gol. Barry J. Lewis

¹³¹ *Medieval Welsh Poems to Saints and Shrines* gol. Barry J. Lewis t. 182

¹³² Thomas Pennant, *Tours in Wales Vol. II* gol. John Rhys (Caernarvon: H. Humphreys, 1883), t. 180

¹³³ Fenton, Richard, *Tours in Wales (1804-1813)* (London: Bedford Press, 1917) [Ar-lein] Ar gael ar: <https://archive.org/details/toursinwales180400fentrich/page/322/mode/2up> <Cyrchwyd 7 Awst 2021> t. 157

¹³⁴ Dafydd ap Llywelyn ap Madog Cerdd 7, ll. 26 yn *Medieval Welsh Poems to Saints and Shrines* gol. Barry J. Lewis

¹³⁵ GPC d.g. gradd

¹³⁶ Dafydd ap Llywelyn ap Madog Cerdd 7, ll. 24 yn *Medieval Welsh Poems to Saints and Shrines* gol. Barry J. Lewis

¹³⁷ *ibid.*, ll. 56

Y mae Ffynnon Wenfrewy wedi'i newid yn sylweddol dros y canrifoedd hefyd ond y mae portread o'r ffynnon mewn cywydd gan fardd anhysbys pan oedd yn symlach o lawer na'r ffynnon grand sydd yn Nhreffynnon hyd heddiw. Disgrifir y ffynnon a'i afon mewn dyffryn sydd â llethr serth a llwyfen sy'n cysgodi'r ffynnon.¹³⁸ Â'r bardd ymlaen i ddarlunio'r clychau dŵr, a drafodir uchod ond hefyd 'main grisial,'¹³⁹ a allai fod yn ddisgrifiad o gerrig neu glychau dŵr. Cofnodir yn y *Vita S. Wenefrede* 'three very bright pebbles ascending and descending after the manner of balls tossed by a thrower.' Â menyw ag un ohonynt ond oherwydd eu bod yn perthyn i Wenfrewy, y mae'n gwaelu ac er ei bod yn dychwelyd y garreg, y mae'r fenyw'n marw a'r cerrig i gyd yn diflannu.¹⁴⁰ Tyn Francis Jones sylw at yr arfer o roi cerrig gwynion mewn ffynhonnau iachusol yng Nghymru fel offrwm,¹⁴¹ er na sonia'n benodol am Ffynnon Wenfrewy. Fodd bynnag noda Samuel Lewis fod llif y dŵr sydd yn y ffynnon yn ddigon cryf i wneud cerrig, sy'n pwyso owns, arnofio.¹⁴²

Wrth i boblogrwydd Gwenfrewy dyfu, adeiladwyd capel addurnedig, sy'n cysgodi ei ffynnon, yn ail hanner y bymthegfed ganrif, sydd i'w weld hyd heddiw. Efallai oherwydd yr arwyddluniau Tudor sydd yn y capel, y mae sawl ysgolhaig wedi priodoli ariannu'r gwaith i Margaret Beaufort, mam Brenin Harri VII. Fodd bynnag yn ei gywydd i Wenfrewy, y mae Tudur Aled yn diolch i Thomas Pennant, abad Abaty Dinas Basing, am ei nawdd ac yn gobeithio y caiff yr abad ei wobrwyo am ei ymdrech trwy gael ei ddyrchafu i fod yn Esgob Caerefrog neu Dyddewi:

Mae olew nef ym mlaen nant,
Yn lle Beuno'n llaw Bennant.
Am un Abad, mae'n obaith,
Y gwyl Duw ei glod a'i waith;

¹³⁸ Anhysbys, Ffynnon Wenfrewi, ll. 11-34 *Two Mediaeval Welsh Poems: Stori Gwenfrewi a'i Ffynnon and Ffynnon Wenfrewi* gol. T. M. Charles-Edwards

¹³⁹ *ibid.*, ll. 54

¹⁴⁰ 'Vita Sancte Wenefrede' yn *Vitae Sanctorum Britanniae* gol. A. W. Wade-Evans, t. 297

¹⁴¹ F. Jones, *The Holy Wells of Wales*, tt. 95-96

¹⁴² Samuel Lewis, 'Holywell - Hyssington' *A Topographical Dictionary of Wales*

Yng nghôr yn Iorc, neu 'Nghaer Non,
Y gorffenno gau'r Ffynnon!¹⁴³

Y mae'n amlwg bod y gwaith ar y capel yn orffenedig yn fuan wedi hynny, oherwydd bod Ieuan Brydydd Hir yn sôn am y ffynnon 'dan y to'.¹⁴⁴ Disgrifia Pennant gwedd y to maen yn y ddeunawfed ganrif; yr oedd 'grotesque figures of animals' a chwedl Gwenfrewy yn hongian dros y ffynnon.¹⁴⁵ Peintwyd ei chwedl hefyd ar yr wal sy'n cynnal y to ac yr oedd chilfach lle yr oedd delw o'r Forwyn Fair a gafodd ei symud yn 1635. Fe'i hysbyswyd bod delw arall o Wenfrewy, nad oedd yno ychwaith ar adeg ymweliad Pennant, ac oherwydd i Isabel, Iarlles Warwig, roi fel offrwm ei gwisg felfed frowngoch i Wenfrewy, meddylia Pennant y buasai'r ddelw ei gwisgo ar ddydd ei Gŵyl yn ôl pob tebyg.¹⁴⁶ Er na rhy Pennant ddisgrifiad o'r delwau, y mae'n bosibl mai at yr un ddelw o Fair y mae bardd anhysbys yn cyfeirio wrth ddisgrifio Ffynnon Wenfrewy: 'Fair mor Wry farmor werydd'.¹⁴⁷

Yn y Canol Oesoedd, ffynnon yn Ne Cymru a allai gystadlu â phoblogrwydd Ffynnon Wenfrewy yn y gogledd oedd Ffynnon Fair ym Mhen-rhys. Fel mam yr Iesu, dechreuodd cwlt Forwyn Fair gynyddu yng Nghymru yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, gan adlewyrchu ei phoblogrwydd ar y cyfandir. Nid oes chwedl ganoloesol am sut y cafodd y ffynnon ym Mhen-rhys ei chreu ond daeth y gysegrfa'n boblogaidd yn y bymthegfed ganrif a noda Christine James, na ellir dyddio barddoniaeth i'r ffynnon cyn c. 1450.¹⁴⁸ Fodd bynnag, y mae'n bosibl y defnyddid y ffynnon yn gynt, efallai yn y cyfnod cyn-Gristnogol.

¹⁴³ Tudur Aled, Stori Gwenfrewy a'i Ffynnon, ll. 108-12 *Two Mediaeval Welsh Poems* gol. T. M. Charles-Edwards

¹⁴⁴ Ieuan Brydydd Hir, Cerdd 9, ll. 45 yn *Gwaith Ieuan Brydydd Hir* gol. M. Paul Bryant-Quinn

¹⁴⁵ Thomas Pennant, *Tours in Wales Vol. I* gol. John Rhys, t. 40

¹⁴⁶ *Ibid.*, t. 42

¹⁴⁷ Anhysbys, Ffynnon Wenfrewi, ll. 27 *Two Mediaeval Welsh Poems* gol. T. M. Charles-Edwards

¹⁴⁸ Christine James, 'Pen-rhys: Mecca'r Genedl' yn *Cwm Rhondda* gol. Hywel Teifi Edwards (Llandysul: Gwasg Gomer, 1995), t. 31

Fe'i lleolir ar allt rhwng y Rhondda Fawr a'r Rhondda Fach o dan grib mynydd Pen-rhys a phortreada'r beirdd wedd ganoloesol y dirwedd yn eu barddoniaeth. Dywed Llywelyn ap Hywel ab Ieuan ap Gronwy ei bod mewn llannerch ar gopa'r allt ond y mae Gwilym Tew yn ymhelaethu:

Ynys yw penn Rys yn Rwyn y fforest,
Bara fferen a dwr swyn.¹⁴⁹

Nid yw'r goedwig, y sonia'r bardd amdani, yno bellach ac awgryma Madeleine Gray fod y bara offeren yn cyfeirio at eglwys, a oedd ar bwys y ffynnon sanctaidd yn yr Oesoedd Canol. Damcaniaetha fod y gair 'ynys', fel y gair Lladin *insular* yn golygu 'mynachlog' a chan mai eiddo Abaty Llantarnam yw Pen-rhys, cred fod posibilrwydd mai dyma le oedd y fynachlog am ychydig. Ar y llaw arall, awgryma Kathryn Hurlock fod 'ynys' yn y farddoniaeth yn cyfeirio at bellter ac uchder y safle.¹⁵⁰ Eto y mae 'ynys' yn air amwys, sydd â mwy nag un ystyr: rhywle ynysig ond hefyd ardal neu fro. Efallai bod y bardd wedi dewis y gair am y rheswm hwn gan ei fod yn disgrifio rhywle diarffordd ond sydd â sawl adeilad, i bererinion o bosibl. Buasai hyn yn cytuno â disgrifiad Terry John a Mona Rees o safle gyda thafarn, bragdy, ysgubor, stablau, popty ac efallai melin.¹⁵¹

Cyfeiria Lewys Morgannwg at ynys hefyd: 'Mae nawnef mewn un ynys' ac awgryma Gray y gallai hyn gyfeirio at fferm fynachaid ym Mhen-rhys, gan esbonio bodd gardd gynhyrchiol ganoloesol yn cynnwys naw gwely uchel oedd â llwybrau rhyngddynt.¹⁵² Felly gallai'r mynachod fod wedi tyfu perlaysiau i drin y pererinion. Darganfuwyd gerddi perlaysiau tebyg

¹⁴⁹ Gwilym Tew, Awdl I Fair o Ben-rhys, ll. 1-2 yn T. Charles-Edwards, 'Pen-rhys: Y Cefnder Hanesyddol: 1179-1538', t. 40

¹⁵⁰ Hurlock, K., *Medieval Welsh Pilgrimage c.1100-1500* (New York: Palgrave Macmillan, 2018), t. 97

¹⁵¹ T. John, a N. Rees, *Pilgrimage: A Welsh Perspective* (Ceredigion: Gomer Press, 2002), t. 113

¹⁵² Madeleine Gray, 'Sacred space and the natural world: the holy well and shrine of the Virgin Mary at Penrhys' yn *European Review of History: Revue europeenne d'histoire*, Vol. 18, No. 2, 15.04.2011, tt. 243 – 260 [Ar-lein] Ar gael ar: [Sacred space and the natural world: the holy well and shrine of the Virgin Mary at Penrhys > University of South Wales Research Explorer](#) <Cyrchwyd 28 Gorffennaf 2021> t. 22 [fersiwn ar-lein]

ym Mwlch-yr-oerfa ym Mhontarfynach, Ceredigion er y credir ei bod yn ôl-ganoloesol.¹⁵³

Esboniad Lewis o ‘nawnef’, ar y llaw arall, yw’r gred ganoloesol bod naw cylch i’r nefoedd, a oedd â naw côr o angylion ynddynt¹⁵⁴ ond gallai’r bardd fod wedi dewis y gair i gyfleu’r ddwy ystyr.

Y mae gan Risiart ap Rhys ddisgrifiad o’r ffynnon iachusol ei hun:

Ym mrig craig y mae eirw crych,
yn iach anaf a’i chwennych:
gwin gwyn drwy’r rhewyn a red,
gŵyr lladd gwaewyr a lludded.¹⁵⁵

Fel mewn cerddi am ffynhonnau eraill, y mae’r bardd yn disgrifio’r dŵr byrlymus. Er bod y gwin a sonnir amdano yn wyn, ac felly nid yn ewcharistig, creda Gray ei fod, ynghyd â’r bara fferen y canodd Gwilym Tew amdano, yn gyfeiriad at eglwys.¹⁵⁶ Fodd bynnag, gan fod y gwin yn dilyn y disgrifiad o’r dŵr, y mae posibilrwydd fod y bardd yn cyfeirio at flas rhagorol y dŵr.

Yn ogystal â’r ffynnon, yr oedd delw o’r Forwyn Fair. Credid yn gyffredinol i’r delwau o Fair ddod yn uniongyrchol o’r Nefoedd yn hytrach na chael ei gwneud gan ddynion ar y ddaear, fel y mae Lewys Morgannwg yn ei ddisgrifio:

Yna daethost, fendithfawr,
I’r lle hwn o’r nef i’r llawr.
Dy ddelw bob dydd a welynt
Yn fyw a gad o nef gynt.¹⁵⁷

¹⁵³ Coflein: Cronfa ddata ar-lein Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru (CHCC) [Ar-lein]

¹⁵⁴ *Medieval Welsh Poems to Saints and Shrines* gol. Barry J. Lewis, t. 323, n. 11

¹⁵⁵ Rhisiart ap Rhys, Cerdd 5, ll. 25-28 yn *Gwaith Rhys Brydydd a Rhisiart ap Rhys* gol. Eurys I. Rowlands (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1976)

¹⁵⁶ Madeleine Gray, ‘Sacred space and the natural world: the holy well and shrine of the Virgin Mary at Penrhys’ yn *European Review of History: Revue europeenne d’histoire*, t. 10[fersiwn ar-lein]

¹⁵⁷ Lewys Morgannwg, Cerdd 102, ll. 5-8 yn *Gwaith Lewys Morgannwg II* gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 2004)

Gall y gair ‘fyw’ olygu bod y ddelw mor fanwl, y mae’n rhoi’r argraff ei bod yn fyw ond awgryma James ei bod yn bosibl iddo gyfeirio at wyrth, megis y ddelw’n wylo neu siarad.¹⁵⁸ Cysylltwyd delweddau o Fair â llawer o wyrthiau yn yr Oesoedd Canol ac mewn cerdd arall gan Lewys Morgannwg, eglurir sut y daethpwyd o hyd i’r ddelw ym môn derwen ac na allai neb ei symud oddi yno.¹⁵⁹

Y mae’r cerflun, sydd ym Mhen-rhys erbyn hyn, wedi disodli’r ddelw ganoloesol ond, fel y nodi James, trwy archwilio’r cerddi, cawn ddisgrifiad o’r un wreiddiol.¹⁶⁰ Dywed Lewys Morgannwg ei bod yn gwisgo coron¹⁶¹ ac yn ôl Rhisiart ap Rhys, yr oedd yn dal y baban Iesu ac yn rhoi cusan iddo:

miragl waith ym mrig y lan
magu Iesu am gusan.¹⁶²

Oherwydd y gall ‘magu’ olygu ‘maethu’ hefyd, awgryma Cartwright bod yr Iesu’n cael ei fwydo ar y fron. Y mae hyn yn debygol iawn o ystyried mai yn llinellau blaenorol y gerdd, sonia’r bardd am laeth yn llifo o’i bronnau: ‘llaeth i redeg, o’th fronnau doeth’. Ar y llaw arall, dywed James ei bod yn bosibl mai dŵr y ffynnon sy’n llifo o fronnau’r ddelw¹⁶³ felly gallai ‘llaeth’ gyfeirio at liw’r ewyn ar y dŵr byrlymog. Ar bwys Eglwys Llanfihangel yn y Bont-faen, a leolir hefyd ym Morgannwg, y mae ffynnon, sydd â cherflun o’r Santes Ann wedi’i osod drosti, er mwyn i’r dŵr sanctaidd lifo o’r bronnau. Fodd bynnag, y mae’n annhebygol bod y ddelw o Fair yn dilyn yr un patrwm gan ei bod yn magu’r Iesu a gwyddom ei bod wedi’i wneud o bren o gymharu â cherflun maen y Santes Ann. Sonia Wiliam Middleton am ddefnydd y ddelw yn ei gerdd Brotestannaidd: ‘A mair o ben Rys frowys

¹⁵⁸ Christine James, ‘Pen-rhys: Mecca’r Genedl’, t. 46

¹⁵⁹ Lewys Morgannwg, Cerdd 23, ll. 47-50 yn *Medieval Welsh Poems to Saints and Shrines* gol. Barry J. Lewis

¹⁶⁰ Christine James, ‘Pen-rhys: Mecca’r Genedl’, t. 46

¹⁶¹ Lewys Morgannwg, Cerdd 103, ll. 1 yn *Gwaith Lewys Morgannwg II* gol. A. Cynfael Lake

¹⁶² Rhisiart ap Rhys, Cerdd 5, ll. 21-22 yn *Gwaith Rhys Brydydd a Rhisiart ap Rhys* gol. Eurys I. Rowlands

¹⁶³ Christine James, ‘Pen-rhys: Mecca’r Genedl’, t.46

friwydh'¹⁶⁴ sy'n cyfeirio at y ddelw'n cael ei llosgi yn Llundain yn ystod y Diwygiad Protestannaidd.

Fodd bynnag, cyn y Diwygiad, dangosa'r bucheddau a'r farddoniaeth fod llawer o barch tuag at y seintiau a'u ffynhonnau ond yn anffodus, y mae llawer o destunau canoloesol wedi mynd ar ddifancoll ac felly nid oes llawer o fanylion am rhai o'r ffynhonnau. Fodd bynnag rhy'r portreadau, sydd ar gael, ddelweddu gwerthfawr inni o wedd y ffynhonnau yn yr Oesoedd Canol. Er bod y disgrifiadau o'r ffynhonnau yn y bucheddau'n gyfyngedig, y mae gan rai o'r cerddi ddisgrifiadau manwl sy'n cynnwys yr holl synnwyr. Ceir ymddangosiad y ffynhonnau, eu dŵr a'r dirwedd o'u cwmpas, hefyd blas, sŵn ac arogl y dŵr a'r mwsogl ac yn olaf tymheredd y dŵr ond fel y dywed Daniel, 'yr oedd y beirdd ... yn hen lawiau ar ddisgrifio golwg a phrydferthwch pethau'.¹⁶⁵ Efallai bod y beirdd wedi defnyddio cymariaethau a disgrifiadau tebyg i'w gilydd yn eu cerddi ond nid yw hyn yn ymyrryd â natur diffuant y teimlad a fynegir.

¹⁶⁴ Wiliam Mileton, Cerdd iii, ll. 12 yn Ifor Williams, 'Protestaniaeth Wiliam Midleton' yn *The Bulletin of the Board of Celtic Studies* Vol III (1937) 242-247

¹⁶⁵ R. I. Daniel, 'Y Ffynhonnau yng Nghanu'r Cywyddwyr', t. 73

Pennod 3: Defnyddio'r ffynhonnau

Eiriolai'r seintiau dros fodau dynol ac fel y dywed Dafydd Johnston: 'cynrychiolai'r seintiau wedd ddynol ar grefydd',¹⁶⁶ felly y mae'n bosibl iawn y credai'r bobl ei bod yn haws siarad â hwy nag anelu eu gweddi'n syth at y Duwdod. Gan fod y seintiau yn y nefoedd, yr oeddent, fel Duw, ym mhobman ond fel y noda Lewis, buasai modd cael cysylltiad cryfach â phŵer y sant ar bwys ei greiriau.¹⁶⁷ Fel mewn gwledydd eraill, yr oedd creiriau corfforol y sant wedi'u hanrhydeddu ac yng Nghymru anrhydeddid hefyd creiriau eilaidd, sef gwrthrychau y mae'r sant wedi cyffwrdd â hwy yn ystod ei fywyd. Oherwydd mai'r sant sy'n creu'r ffynnon ac yna ei defnyddio, gan ymdrochi neu olchi yn y dŵr, cael ei fedyddio yno neu yfed dŵr ohoni, yn aml cynrychiolai'r ffynnon bŵer goruwchnaturiol y sant. Archwilia'r bennod hon, felly, y defnydd o'r ffynhonnau sanctaidd yn yr Oesoedd Canol o oes y seintiau hyd at gyfnod Beirdd yr Uchelwyr.

Y seintiau eu hunain sydd ymhlith y rhai cyntaf i ddefnyddio'r ffynhonnau a ddarparwyd iddynt gan Dduw ac yn aml fe'u crëir er mwyn darparu dŵr angenrheidiol mewn lle sych naill ai i'r seintiau neu i anifeiliaid. Y mae llawer o'r seintiau'n asgetigion, gan fyw ar ddeiet llym o fara a dŵr yn unig ond y mae'n debyg y caniateir ychydig o ferwr y ffynhonnau hefyd, fel y cyfeiria Iolo Goch ato mewn cerdd i Ddewi:

Un bwyd a aeth yn ei ben,
Bara oer a beryren
A dwfr du tra fu fyw.¹⁶⁸

Pan fo'r seintiau'n croesawu gwesteion, yn enwedig gwesteion o bwys, gwnânt wyrth, gan droi'r dŵr yn win neu fedd, sy'n fwy at ddant eu gwesteion. Fodd bynnag, nid yw'r dŵr ond

¹⁶⁶ Johnston, Dafydd, *Llên yr Uchelwyr: Hanes Beirniadol Llenyddiaeth Gymraeg 1300-1525*, ail arg (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru Caerdydd, 2014) t. 10

¹⁶⁷ *Medieval Welsh Poems to Saints and Shrines* gol. Barry J. Lewis, t. 3

¹⁶⁸ Iolo Goch, Cerdd 4, ll. 47-49 yn *Seintiau Cymru*

diod; cofnodir yn rhai o fucheddau'r saint a'r farddoniaeth y penydai'r seintiau yn y dŵr iasoer a defnyddia Gwenfrewy dŵr yn afon ei ffynnon i anfon mantell at Feuno bob blwyddyn.¹⁶⁹ Defnyddir ffynhonnau hefyd i arddangos pwerau'r seintiau; trwy ei chysegru, try Dewi ffynnon baganaidd wenwynig yng Nghaerfaddon yn Gristnogol ac felly diogel.¹⁷⁰ Ymhellach argyhoedda Llawddog esgobion Cymru am ei ragoriaeth a'i addasrwydd i gael ei benodi'n abad, trwy ychwanegu llaeth at y dŵr mewn ffynnon ac yna gwahanu'r hylifau; y dŵr ar un ochr y ffynnon a'r llaeth ar y llall.¹⁷¹ Y mae hyn yn adlais o'r Beibl pan fo Moses yn croesi'r Môr Coch: 'Estynnodd Moses ei law dros y môr, a thrwy'r nos gyrodd yr Arglwydd y môr yn ei ôl â gwynt cryf o'r dwyrain. Gwnaeth y môr yn sychdir a holltwyd y dyfroedd.'¹⁷²

Gellir dysgu am arferion y bobl ynglŷn â ffynhonnau yn oes y seintiau o'r testunau canoloesol. Noda buchedd Euddogwy y daw o hyd i fenywod ar bwys ffynnon ger yr eglwys yn Llandaf 'washing butter, after the manner of the country.'¹⁷³ Y mae syched ar y sant, felly gofynna i'r menywod am ddysgl er mwyn iddo yfed. Gan nad oes ganddynt ddim byd ond y menyf, crea'r sant gloch ac ŷf y dŵr ohoni. Try'r gloch yn aur ac yn groes i'r chwedlau a drafodir yn y bennod gyntaf, y gloch sy'n cael rhinweddau iachusol ac nid oes sôn am nodweddion dŵr y ffynnon yn newid. Fodd bynnag nid oes modd cadarnhau a ddefnyddid ffynnon sanctaidd am dasgau beunyddiol y cartref oherwydd na chofnodir yn y chwedl a barha'r menywod i ddefnyddio'r ffynnon yn yr un ffordd yn dilyn y wyrth. Ni ddatgenir a yw'r ffynnon yn sanctaidd naill ai cyn neu ar ôl y wyrth ychwaith. Y mae posibilrwydd, felly, bod y chwedl hon yn anghyflawn ond creda G. H. Doble fod y wyrth hon yn perthyn i Deilo a

¹⁶⁹ 'Buchedd Gwenfrewy' yn *Lives of the British Saints IV* gol. S. Baring-Gould a J. Fisher, t. 405

¹⁷⁰ 'Rhygyfarch's Life of David' gol. a chyf. R. Sharpe a J. R. Davies, t. 121

The Welsh Life of David, gol. D. Simon Evans, t. 4

¹⁷¹ 'Buched Leudoc St' yn *Lives of the British Saints IV* gol. S. Baring-Gould a J. Fisher, t. 427

Lewys Glyn Cothi, Cerdd 20, ll. 19-24 yn *Medieval Welsh Poems to Saints and Shrines* gol. Barry J. Lewis

¹⁷² Exodus 14: 21

¹⁷³ 'Vita Beati Oudocei, Landavensis Archiepiscopi' yn *The Liber Landavensis, Llyfr Teilo, or the Ancient Register of the Cathedral Church of Llandaff* gol. W. J. Rees, t. 378

bod bucheddydd Euddogwy wedi'i chopïo.¹⁷⁴ Wrth gwrs bod hyn hefyd yn bosibl o ystyried arfer y bucheddwyr o fenthyca gwyrthiau o wahanol ffynonellau i godi statws y sant y maent yn eu hyrwyddo.

Oherwydd bod pwerau'r sant yn eu creiriau, parha'r gwyrthiau hyd yn oed ar ôl marwolaeth y sant. Amddiffynnir creiriau corfforol Cadog yn yr Eidal gan y ffynnon, a gododd ar gyfer y fynachlog yno; os symudir ei gorff, gorlifa'r ffynnon a 'like a sea overwhelm the whole fort and all its inhabitants.'¹⁷⁵ Ym muchedd anhysbys Gwenfrewy, y mae menyw, sy'n dwyn un o'r cerrig gwynion o ddŵr Ffynnon Wenfrewy'n marw ac y mae Ffrancwr, sy'n ceisio symud maen Beuno yn mynd yn gloff. Diddorol yw nodi er i'r fuchedd hon gael ei hysgrifennu yn ôl pob tebyg gan Eingl-Norman, cosbir yr Eingl-Normaniaid, yn ogystal â'r Cymry. Fodd bynnag fel y noda Julia M. H. Smith, y mae'r bucheddwyr yn canolbwyntio ar wyrthiau dial y seintiau a fuasai'n cynorthwyo i reoli ymddygiad y bobl,¹⁷⁶ gan amddiffyn y ffynnon rhag cysegr-ladrad ac anghysegriad.

Parchwyd y seintiau, felly, ond codasant ofn ar y bobl ganoloesol hefyd, a gallai gael ei ddefnyddio i gyrraedd y gwir. Yn ôl y *Vita S. Wenefrede*, y mae dyn, a gaiff ei gyhuddo o ladrad, yn tyngu anudon ar Ffynnon Wenfrewy a dechreu'r afr, y mae wedi'i bwyta, frefi yn ei stumog.¹⁷⁷ Y mae'n amlwg bod tyngu llw ar greiriau'n gyffredin gan fod y cyfreithiau'n cyfeirio ato sawl gwaith¹⁷⁸ ac wrth sôn am natur ddialgar y seintiau Cymreig, dywed Gerallt

¹⁷⁴ Rhy Doble y tystiolaeth yr ymddengys yr un stori ym muchedd Saesneg Canol Teilo a Ffynnon Deilo yw enw'r ffynnon hon. Y mae trafodiaeth yn G. H. Doble, *Lives of the Welsh Saints* gol. D. Simon Evans (Cardiff: University of Wales Press, 2013) tt. 219-20

¹⁷⁵ 'Vita Sancti Cadoci' yn *Vitae Sanctorum Britanniae* gol. a chyf. A. W. Wade-Evans, t. 111

¹⁷⁶ J. M. H. Smith, "Oral and Written: Saints, Miracles, and Relics in Brittany, c. 850-1250." yn *Speculum*, vol. 65(2), (1990), 309-343. [Ar-lein] Ar gael ar www.jstor.org/stable/2864295 <Cyrchwyd 24 Gorffennaf 2020> tt. 340

¹⁷⁷ 'Vita Sancte Wenefrede' yn *Vitae Sanctorum Britanniae* gol. a chyf. A. W. Wade-Evans, t. 297

¹⁷⁸ Blegywryd (Chapter XVIII), yn *Cyfraith Hywel* [Ar-lein] Ar gael ar: <http://cyfraith-hywel.cymru.ac.uk/mynegai.php?func=filter&orderby=&ms=&tr=&rh=Gwragedd&ad=&srch=&du=> <Cyrchwyd 30 Gorffennaf 2021>

Gymro am y Cymry, ‘they are more afraid of swearing oaths upon them [y creiriau] and then breaking their word than they are upon the Gospels’,¹⁷⁹

Serch hynny, fel y dywed Smith, ni chofnodir llawer o wyrthiau ar ôl marwolaeth ym mucheddau’r seintiau Cymreig; daw’r mwyafrif o fucheddau i ben wrth i’r sant farw.¹⁸⁰

Anarferol iawn y maent yn cynnwys *liber miraculorum*, fel yr un sydd ar ddiwedd y *Vita S. Wenefrede* ac sydd â chyfuniad o wyrthiau dial ac iacháu a ddigwyddodd yn ffynnon ac eglwys Gwenfrewy. Cred Smith iddo gael ei ysgrifennu’n hwyrach na’r fuchedd ei hun, efallai er mwyn amddiffyn eiddo’r eglwys¹⁸¹ ond yn groes i wyrthiau ôl marwolaeth y seintiau eraill, y mae’r mwyafrif o wyrthiau’n rhai iacháu. Yn ôl pob tebyg, felly, bwriad eu hychwanegu oedd cyhoeddi rhinweddau iachusol y ffynnon a’i hyrwyddo fel man pererindod.

Yn yr Oesoedd Canol, y canolfannau pererindota mwyaf enwog oedd Santiago de Compostella yn Sbaen, Rhufain a Jerwsalem ac yn ôl eu bucheddau, ymwelodd Dewi, Padarn a Theilo â Jerwsalem a chofnodir yn y *Vita Sancte Wenefrede* i Wenfrewy fynd i Rufain. Fodd bynnag, er bod tystiolaeth ar ffurf cerddi i bobl fynd i’r safleoedd pererindota hyn,¹⁸² y mae’n annhebyg bod gan y mwyafrif o’r Cymry ddigon o arian i fynd tramor ac y buasai’r daith yn beryglus iawn. Dewis arall oedd pererindota yng Nghymru er bod peryglon wrth deithio yno hefyd; yn ogystal â’r sefyllfa wleidyddol ansefydlog yn dilyn y Goresgyniad Normanaidd, yr oedd tirwedd Cymru’n broblem. Pan oedd yn teithio ar draws Cymru gyda Baldwin, Archesgob Caergaint yn 1188, cofnoda Gerallt Gymro fod rhaid i un o’i geffylau

¹⁷⁹ Cambrensis, Geraldus, *The Journey Through Wales and The Description of Wales* gol. a chyf. Lewis Thorpe, t. 87

¹⁸⁰ J. M. H. Smith, “Oral and Written: Saints, Miracles, and Relics in Brittany, c. 850-1250.”, tt. 340-41

¹⁸¹ *ibid.*, t. 340

¹⁸² Lewys Glyn Cothi, Cerdd 11 yn *Medieval Welsh Poems to Saints and Shrines* gol. Barry J. Lewis

pwn gael ei achub o'r sugndraeth rhwng mynachlogydd Margam a Chastell Nedd gan ei weision a fentrodd eu bywydau i'w wneud.¹⁸³

Efallai oherwydd peryglon y dirwedd, ynghyd â'r risg i'r Eingl-normaniaid o gael eu niweidio'n gorfforol gan y Cymry bryd hynny, y rhoddwyd caniatâd i'r Esgob Bernard ddosbarthu maddeuebau i bererinion Eingl-normanaidd yn Nhyddewi gan y Pab Calixtus II tua 1120. Buasai'r maddeuebau, y gallai'r pererin eu prynu yn y gysegrfa'n lleihau faint o amser y buasai'n rhaid i'r unigolyn dreulio ym mhurdan ar ôl iddynt farw. Yr oedd gan bererindod i Dyddewi'r un gwerth â dwy bererindod i Rufain a chyn bo hir, gallai'r Cymry hefyd fanteisio ar gael yr un wobwr ac yr oedd mynd deirgwaith i Dyddewi'n hafal i un daith i Jerwsalem, fel y cadarnha gan sawl bardd.¹⁸⁴

Derbynnid y seintiau Cymreig gan yr Eingl-normaniaid felly ac ar ôl cyhoeddiad Archesgob Caergaint yn 1398 y buasai gŵyl Gwenfrewy yn cael ei dathlu yno gyda naw llith, cynyddodd poblogrwydd Ffynnon Wenfrewy fel cysegrfa. Yna yn 1427, rhoddodd y Pab Martin V ganiatâd i fynachod Dinas Basing werthu maddeuebau i'r pererinion a ddaeth i'r ffynnon er mwyn codi arian at ail-adeiladu capel Gwenfrewy. Awgryma Glanmor Williams, yn annheg efallai, mai'r faddeueb oedd prif atyniad y cysegrfeydd yn hytrach na'r sant ei hun.

Daeth pererinion i Ffynnon Wenfrewy yn lluo oherwydd, yn ôl Williams, y credid mai pechod oedd achos salwch.¹⁸⁵ Arweiniodd hyn, ynghyd â gwybodaeth a sgiliau elfennol meddygon y cyfnod (a diffyg arian ar ran y claf i dalu am driniaeth) at bobl yn rhoi ei ffydd yn y seintiau

¹⁸³ Cambrensis, Geraldus, *The Journey Through Wales and The Description of Wales* gol. a chyf. Lewis Thorpe, tt. 130-31

¹⁸⁴ Ieuan ap Rhydderch, Cerdd 18, ll. 116-22 yn *Medieval Welsh Poems to Saints and Shrines* gol. Barry J. Lewis

Iolo Goch, Cerdd 4 'Mawl i Ddewi Sant', ll. 3-10 yn *Seintiau Cymru*

¹⁸⁵ Glanmor Williams, 'Poets and Pilgrims in Fifteenth and Sixteenth Century Wales' yn *Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion* (1991) 69-98 [Ar-lein] Ar gael ar: <https://journals.library.wales/view/1386666/1423792/72> <Cyrcwyd 14 Mai 2021> tt. 80-81

a'u ffynhonnau sanctaidd. Crybwylla Robert Miltwn y driniaeth a allai meddygon ei chynnig mewn englyn am Ffynnon Wenfrewy, lle y cyfeiria at ei ffynnon yn tynnu haint heb ddefnyddio gelenod.¹⁸⁶ Mewn cerdd arall i Wenfrewy, canodd bardd anhysbys:

Gwell yw na'i ddeuwell o dda,
Na thriagl, byth ni threia.¹⁸⁷

Yn ychwanegol at 'triog' gall y gair triagl olygu eli meddyginiaethol¹⁸⁸ ond efallai bod y bardd wedi dewis y gair i gyfleu y bydd moddion Gwenfrewy yn fwy melys na thriniaeth y meddygon, yn enwedig o ystyried bod y llinell 'ffynnon, gwell dafn na phunnoedd'¹⁸⁹ ar ddechrau'r gerdd, a allai gyfeirio at y tâl anochel i weld meddyg. Gallai hyn fod yn enghraifft o'r bardd yn newid un o draddodiadau Gwenfrewy yn fwriadol, pwnc a drafodir gan David Callander yn ei astudiaeth ryngdestunol o'r cerddi i Wenfrewy.¹⁹⁰

Tyn T. M. Charles-Edwards sylw at y frawddeg 'Yn ei berw, yno y bwrir ... dynion wrth eu dadeni'¹⁹¹ sydd yn yr un gerdd. Ymddengys fod y bardd yn cymharu Ffynnon Wenfrewy â'r pair dadeni yn ail gainc y Mabinogi, lle y gallai'r Gwyddelod daflu eu meirwon a buasent yn cael eu hatgyfodi.¹⁹² Buasai hyn wedi bod yn gyffelybiaeth rymus i gynulleidfa ganoloesol ac un sy'n addas iawn o ystyried y buasai pobl yn ymdrochi yn nŵr byrlymus y ffynnon i gael eu hiacháu.

Y mae'n debyg yr âi'r cleifion at ffynnon sanctaidd yn sgil triniaeth aneffeithiol gan feddyg hefyd. Yn y naw llith Lladin am Ddeiniol, cofnodir i fenyw fynd i Ffynnon Ddeiniol i gael

¹⁸⁶ Enghreifftiau'n cynnwys Wiliam Byrsinsia Cyfres o englynion, ll. 1 a 5, Robert Miltwn Cyfres o englynion, ll. 9 yn G. Hartwell Jones, *Celtic Britain and the Pilgrim Movement* (London: The Hon. Society of Cymmrodorion, 1912), t. 400

¹⁸⁷ Anhysbys, Ffynnon Wenfrewi, ll. 61-62 yn *Two Mediaeval Welsh Poems* gol. T. M. Charles-Edwards

¹⁸⁸ GPC d. g. triagl

¹⁸⁹ Anhysbys, Ffynnon Wenfrewi, ll. 3 yn *Two Mediaeval Welsh Poems* gol. T. M. Charles-Edwards

¹⁹⁰ David Callander, 'Y Seintiau a Thradoddiad Llenyddol: Achos y Canu i Wenfrewy' yn *Studia Celtica* LIV (2020) 99-114

¹⁹¹ *ibid.*, ll. 35

T. M. Charles-Edwards rhagymadrodd yn *Two Mediaeval Welsh Poems* gol. T. M. Charles-Edwards, t. 2

¹⁹² *Pedeir Keinc y Mabinogi* gol. Syr Ifor Williams, t. 44

rhyddhad o'i bola chwyddedig. Ar ôl triniaeth wrth y ffynnon, y mae'n chwydu 'in sight of many bystanders, three horrible worms with four feet each'.¹⁹³ Y mae cerdd Syr Dafydd Trefor am y digwyddiad yn ychwanegu bod ei bola wedi'i chwyddo 'gan wenwyn drwg wenwynol' ac y mae 'afrifed bryfed'.¹⁹⁴ Efallai bod y fenyw wedi llyncu gwenwyn ond o ystyried y llyngyr, y mae'n bosibl bod y gwenwyn yn cyfeirio at ei thriniaeth feddygol flaenorol a oedd yn ddieffraith.

Credid y gwellai rhai ffynhonnau afiechydon penodol; gallai Ffynnon Gadog yng Nghernyw iacháu amrywiaeth o afiechydon ond yr oedd yn driniaeth arbennig o dda am broblemau'r system dreulio, gan gynnwys llyngyr.¹⁹⁵ Gwellai Ffynnon Frynach y musgrell ond yr oedd y dŵr yn effeithiol iawn i wella clwyfau¹⁹⁶ ac iacheir Mobi, sy'n ddall trwy olchi ei lygaid yn nŵr ffynnon bedydd Dewi.¹⁹⁷ Yn awdl Gwynfardd Brycheiniog, y mae cyfeiriad arall at Ddewi'n iacháu golwg 'Ffrainc o Ffranc' ond nid yw'n eglur a dŵr un o'i ffynhonnau sy'n gyfrifol am yr wyrth hon neu a yw Dewi ei hun sy'n ei gwneud, fel yr adfera golwg Peulin.¹⁹⁸ Er bod Ann Parry Owen yn meddwl bod posibilrwydd fod y bardd yn disgrifio iachâd Mobi, gan y gall 'Ffranc' olygu rhywun estron ac y mae Mobi yn fynach Gwyddelig.¹⁹⁹ Cysylltir ffynhonnau Dewi (a'i fam Non) â thrin golwg, traddodiad a ddechreuodd wrth iddo gael ei fedyddio a noda James Rattue fod dros hanner cant o ffynhonnau oedd yn cael eu defnyddio i drin llygaid yng Nghymru gan i ddiffyg fitamin A yn ymborth pobl ganoloesol achosi seroffthalmia.²⁰⁰

¹⁹³ Legenda 9 Lectionu de Scto Daniele Epo Bangoriesi yn *Lives of the British Saints IV* gol. S. Baring-Gould a J. Fisher, t. 392

¹⁹⁴ Syr Dafydd Trefor, Cerdd 14, ll. 29-30 a ll. 33 yn *Gwaith Syr Dafydd Trefor* gol. Rhiannon Ifans

¹⁹⁵ 'Vita Sancti Cadoci' yn *Vitae Sanctorum Britanniae* gol. a chyf. A. W. Wade-Evans, t. 95

¹⁹⁶ 'Uita Sancti Bernachii' yn *Vitae Sanctorum Britanniae* gol. a chyf. A. W. Wade-Evans, t. 7

¹⁹⁷ 'Rhygyfarch's Life of David' gol. a chyf. R. Sharpe a J. R. Davies, t. 117

The Welsh Life of David, gol. D. Simon Evans, t. 3

¹⁹⁸ 'Rhygyfarch's Life of David' gol. a chyf. R. Sharpe a J. R. Davies, t. 119

¹⁹⁹ Gwynfardd Brycheiniog Cerdd 3, n. 103 yn *Seintiau Cymru*

²⁰⁰ J. Rattue, *The Living Stream: Holy Wells in Historical Context* (Woodbridge: The Boydell Press, 2001), t. 94

Ar y llaw arall, honnid y gallai llawer o ffynhonnau iacháu pob math o salwch. Canodd Dafydd Epynt ‘nant a dynn haint y dynion’,²⁰¹ am Ffynnon Gathen a dywed Rhygyfarch am Ffynnon Ddunawd ‘it abundantly cured many human diseases.’²⁰² Fodd bynnag y mae’r Prior Robert yn mynd cam ymhellach trwy ddweud bod Ffynnon Wenfrewy yn iacháu afiechydon gwartheg yn ychwanegol at bobl ac yr oedd hyn yn dal yn nodwedd ar y ffynnon pan ysgrifennodd buchedd Gymraeg Beuno yn yr unfed ganrif ar bymtheg: ‘hyt hediw yssyd yn rodi yechyt y dynyon ân anyueileit oc eu heinyeu ae clwyfeu.’²⁰³ Y mae’n rhyfedd, felly, na sonia’r cerddi am drin anifeiliaid o gwbl.

Tyn Lewis sylw at y rhestr o afiechydon ystrydebol sy’n cael eu hiacháu gan y ffynhonnau sanctaidd a’u cymharu at wyrthiau’r Iesu yn y Beibl, megis dallineb, mudandod, byddardod, cloffni, gwahanglwyf a hefyd pobl sydd â phroblemau meddyliol a phobl a chythraul ynddynt. Ymhlith y rhestr hir o afiechydon amrywiol wedi’u gwella gan Ffynnon Ddyfnog, trinia ‘y frech wenwynig’, sydd, yn ôl Lewis, yn cynnwys unrhyw glefyd yn ymwneud â’r croen.²⁰⁴ Honiad a safodd brawf amser oherwydd ar ddiwedd yr ail ganrif ar bymtheg, dynoda Lhuyd: ‘Some say ’twould cure y^e Pox.’²⁰⁵ Cofnodir yn *Vita S. Wenefrede* bod y santes yn gwella anffrwythlondeb ac y mae’n debyg i’r Brenin Iago II a’i frenhines fynd i Ffynnon Wenfrewy i ofyn, yn llwyddiannus, am fab i etifeddu’r goron. Er y gall y santes achosi anffrwythlondeb hefyd; dyma gosb menyw Normanaidd, a ddengys diffyg parch tuag at y santes a’i ffynnon trwy ymolchi yn y ffynnon sanctaidd,²⁰⁶ a neilltuir ar gyfer cleifion.

Ymhellach cofnodir bod y santes eisiau iacháu epilepsi uwchben popeth gan fod yr afiechyd yn dra niweidiol, gan effeithio ar yr ymennydd, y galon a’r enaid yn ogystal ag aelodau’r

²⁰¹ Dafydd Epynt, Cerdd 4, ll. 34 yn *Gwaith Dafydd Epynt* gol. Owen Thomas

²⁰² ‘Rhygyfarch’s Life of David’ gol. a chyf. R. Sharpe a J. R. Davies, t. 125

²⁰³ ‘Hystoria o Uched Beuno’ yn *Vitae Sanctorum Britanniae* gol. a chyf. A. W. Wade-Evans, t. 19

²⁰⁴ *Medieval Welsh Poems to Saints and Shrines* gol. Barry J. Lewis, t. 185, n. 50

²⁰⁵ Edward Lhuyd, *Parochialia Part I* gol. Rupert H. Morris (London: Cambrian Archaeological Association, 1909-1911), t. 110

²⁰⁶ ‘Vita Sancte Wenefrede’ yn *Vitae Sanctorum Britanniae* gol. a chyf. A. W. Wade-Evans, t. 301

corff.²⁰⁷ Fodd bynnag, mewn cerdd gan fardd anhysbys, ymhlith y rhestr arferol o afiechydon y iachâ Gwenfrewy, y mae gwyrth ragorol:

Os crupul trachul heb droed,
Fo ddaw adre ar ddeudroed.²⁰⁸

Yn ôl pob tebyg, credid y gallai'r seintiau ddatrys unrhyw broblem feddygol, feddyliol ac ysbrydol. Yn yr un gerdd, honna'r bardd anhysbys am Ffynnon Wenfrewy:

Fo gâi anfadwyr ynfydion
Synnwyr deg, os yno y dôn'.²⁰⁹

Yn ychwanegol, y mae Gwenfrewy yn 'rhoi eneidie ym mharadwys',²¹⁰ felly rhoddid cymorth ar ddiwedd oes hefyd. Ceir honiadau tebyg am Ddwynwen²¹¹ ond ar ben hynny y mae llinell yng nghywydd Syr Dafydd Trefor sy'n cyfleu y derbynnid y gall y santes atgyfodi meirwon neu o leiaf pobl a oedd yn ymddangosiadol farw:

Miragl wrth godi meirwon!²¹²

Eglura Rhiannon Ifans y credid y gallai'r seintiau gyflawni eu gwyrthiau o hirbell, gan achub bywydau babanod a phlant, a oedd yn dioddef o salwch difrifol neu ar ôl iddynt gael damwain. Dywed ei bod yn debyg bod y bardd yn cyfeirio at y math hwn o wyrth, a fyddai'r perthnasau yn adrodd wrth bawb, a oedd wrth y gysegrfa, wrth iddynt ddiolch i'r santes.²¹³

Cofnodir yn y testunau rai o'r traddodiadau ynglŷn â defnyddio'r ffynhonnau hefyd; y mae'n rhaid i'r fenyw gyda'r bola chwyddedig weddïo ar Ddeiniol yn ei eglwys ac yfed dŵr ei

²⁰⁷ 'Vita Sancte Wenefrede' yn *Vitae Sanctorum Britanniae* gol. a chyf. A. W. Wade-Evans, t. 303

²⁰⁸ Anhysbys, Cerdd 9, ll. 45-46 yn *Medieval Welsh Poems to Saints and Shrines* gol. Barry J. Lewis

²⁰⁹ *ibid.*, ll. 49-50

²¹⁰ *ibid.*, ll. 62

²¹¹ Syr Dafydd Trefor, Cerdd 13, ll. 31-32 yn *Gwaith Syr Dafydd Trefor* gol. Rhiannon Ifans

²¹² *ibid.*, ll. 28

²¹³ *Gwaith Syr Dafydd Trefor* gol. Rhiannon Ifans, tt. 185-86

ffynnon.²¹⁴ Gan ddibynnu ar y testun, y mae Mobi yn golchi ei wyneb yn nŵr Ffynnon Dewi²¹⁵ neu'n tasgu'r dŵr ar ei wyneb deirgwaith.²¹⁶ Fodd bynnag un o'r traddodiadau mwyaf cyffredin oedd ymdrochi yn nŵr y ffynnon, y gofer, sef lle y mae'r dŵr yn gorlifo, neu yn nŵr y llednant; ystyrid pob un o'r rhain yn sanctaidd. Sonia Dafydd Epynt am ymdrochi yn llednant Ffynnon Gathen:

Dan d'adain di on'd ydwyf?
Dan y ffrwd yn ffo yr wyf;
Un wythen, sant, ni thau'n sôn,
Nant a dynn haint y dynion.²¹⁷

Efallai gan nad oedd y ffynnon ei hunan yn ddigon mawr i ganiatáu ymdrochi ond yn anffodus nid oes ragor o wybodaeth ar gael am y ffynnon, nad yw'n bodoli bellach.

Ehangwyd ffynhonnau eraill, megis Ffynnon Ddyfnog a Ffynnon Wenfrewy, i ganiatáu ymdrochi. Yn anffodus er bod y bardd yn rhestru'r afiechydon, sy'n cael eu gwella yn Ffynnon Ddyfnog, ni sonia am y traddodiadau ynglŷn ag iacháu.

Y mae mwy o wybodaeth yn *liber miraculorum* Gwenfrewy; gan amlaf y mae'n rhaid ymdrochi yn y dŵr neu olchi ynddo. Weithiau y mae'n rhaid yfed y dŵr yn ogystal ag ymdrochi ynddo, fel yn achos y plentyn mud a all ofyn i'w fam am ei ddillad ar ôl y driniaeth hon.²¹⁸ Ymhellach, yr oedd ffydd yn y santes yn hollbwysig; ymdrocha ddau fachgen sydd â chamffurfiadau yn Ffynnon Wenfrewy ond yr un a rydd ei ffydd yn y santes yw'r unig un i gael ei iacháu.²¹⁹ Fel y dywed Williams, buasai ambell iachâd yn aros yn y cof yn hirach na llawer o fethiannau²²⁰ ac os na wella claf, gellir dweud nad oedd ffydd yr unigolyn yn ddigon

²¹⁴ Legenda 9 Lectionu de Scto Daniele Epo Bangoriesi yn *Lives of the British Saints IV* gol. S. Baring-Gould a J. Fisher, t. 392

²¹⁵ *The Welsh Life of David*, gol. D. Simon Evans, t. 3

²¹⁶ 'Rhygyfarch's Life of David' gol. a chyf. R. Sharpe a J. R. Davies, t. 117

²¹⁷ Dafydd Epynt, Cerdd 21, ll. 31-34 yn *Gwaith Dafydd Epynt*, gol. Owen Thomas

²¹⁸ 'Vita Sancte Wenefrede' yn *Vitae Sanctorum Britanniae* gol. a chyf. A. W. Wade-Evans, t. 303

²¹⁹ *ibid.*, t. 305

²²⁰ Williams, Glanmor, *The Welsh Church from Conquest to Reformation*. (Cardiff: University of Wales Press, 1976), t. 503

cryf. Y mae angen hefyd ffydd yn Nuw, megis y dyn cyfoethog, sy'n rhoi ei holl gyfoeth i'r eglwys a'r tlodion ar ei ffordd i'r ffynnon. Fe'i gwella ar ôl ymdrochi deirgwaith yn y ffynnon a gweddio am dair noson yn eglwys Gwenfrewy.²²¹ Yr oedd y ffynnon ynghlwm wrth gredoau crefyddol y bobl felly a gall y tair gwaith gynrychioli'r Drindod ond y mae arwyddocâd arbennig gan y rhif ym mytholeg gynharach hefyd; felly nid yw'n eglur o ble y mae'r traddodiad hwn yn dod.

Cofnodir yn y *Vita et Translatio S. Wenefredae* hefyd y dylid ymdrochi yn y dŵr hyd at deirgwaith ac ychwanegir os na chaiff yr unigolyn yr hyn y maent yn gofyn amdano erbyn y trydydd tro, byddent yn marw'n fuan!²²² Fel y dywed Williams, y mae'n ddigon posibl i bobl sâl farw ar ôl cael eu hymdrochi yn nŵr rhewllyd y ffynnon. Adleisir tyb bucheddydd Gwenfrewy yng nghywydd Tudur Aled ond ymhelaethu y bydd y meirwon yn cael eu derbyn yn syth yn y nefoedd dan ofal Gwenfrewy, heb orfod cael eu puro ym mhurdan yn gyntaf:

Aed i'w nofio'r dyn afiach,
Ef âi'r naill ai'n farw neu'n iach;
A farno haint i farw'n hon,
F'a i'r nef o'r un afon;²²³

Ym muchedd Gymraeg Gwenfrewy, ceir defodau eraill ynglŷn â chael iachâd, a oedd yn tra hysbys yn ôl y sôn:

A honnaid a chyhoedauc yu gan hol Gymrŷ puy bynnac y bo cryd arnau neü
uayu yny aylod buried y dufyr arnau neü ynteü kymred y kerric gwaedlud a
gayph yny phrud a guasged urthau ac yfed y dyfur o i amdanunt ac ef a gayph
iechyd.²²⁴

²²¹ 'Vita Sancte Wenefrede' yn *Vitae Sanctorum Britanniae* gol. a chyf. A. W. Wade-Evans, t. 301

²²² 'Vita et Translatio S. Wenefredae' yn *Two Mediaeval Lives of Saint Winefride* gol. a chyf. R. Pepin a H. Feiss, t. 43

²²³ Tudur Aled, Stori Gwenfrewy a'i Ffynnon, ll. 59-62 yn *Two Mediaeval Welsh Poems* gol. T. M. Charles-Edwards

²²⁴ 'Buchedd Gwenfrewy' yn *Lives of the British Saints IV* gol. S. Baring-Gould a J. Fisher, t. 416

Ystyrid y cerrig gwaedlyd (hynny yw, y cerrig â mwsogl drostynt) yn sanctaidd ynghyd â'r mwsogl arall, *jungermannia asplenioides*, sydd yn y ffynnon ac yn iacháu 'divers diseases',²²⁵ a chanodd Tudur Aled:

Rhoen ar wellt, yr hen a'r iau,
Ag ar y llawnt, eu garlantau;²²⁶

Gallai'r bardd fod yn cyfeirio at sychu'r mwsogl ar y glaswellt i fynd ag ef adref, efallai er mwyn ei roi i rywun sy'n rhy sâl i deithio. Noda Henken ei bod yn hwylus y gall y seintiau weithredu trwy wrthrychau megis ffynhonnau, sy'n goroesi ymhell ar ôl marwolaeth y sant. Y mae hefyd yn gyfleus bod y dŵr, y cerrig a'r mwsogl yn ddigon bychan i gludo ac am fod y mwsogl yn blanhigyn, ail-dyf yn gyflym, gan ddarparu cyflenwad parhaus yn y ffynnon.

Yn anffodus ni chofnodir defodau iacháu am bob ffynnon yn y ffynonellau canoloesol sydd ar gael ond y mae sawl defod arall a gofnodwyd pan ddechreuodd ysgolheigion, megis John Rhys, gasglu chwedlau gwerin o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg ymlaen. Yn ôl Rhys credid y gall iacháu'r pâs trwy yfed dŵr o Ffynnon Deilo yn Llandeilo Llwydard, Sir Benfro, ond yr oedd yn rhaid yfed y dŵr o benglog Teilo, a oedd ym meddiant teulu lleol. Noda Ross fod traddodiad tebyg yn yr Alban hefyd lle y gellid iacháu epilepsi trwy yfed dŵr ffynnon o benglog hynafiad a chysyllta Ross hyn â'r arfer paganaidd o roi pennau toredig mewn ffynhonnau sanctaidd.²²⁷ Fodd bynnag, efallai bod cysylltiad Cristnogol hefyd; tra bo'r Prior Robert wrthi'n symud creiriau corfforol Gwenfrewy i Amwythig, iacheir dyn trwy yfed y dŵr y mae'r prior wedi'i fendithio sydd gydag ychydig o lwch o benglog Gwenfrewy.²²⁸ Er hynny, ni ddaethpwyd ar draws unrhyw dystiolaeth am ddefnyddio penglog i yfed dŵr o

²²⁵ 'Vita Sancte Wenefrede' yn *Vitae Sanctorum Britanniae* gol. a chyf. A. W. Wade-Evans, t. 293

²²⁶ Tudur Aled, Stori Gwenfrewy a'i Ffynnon, ll. 99-100 yn *Two Mediaeval Welsh Poems* gol. T. M. Charles-Edwards

²²⁷ Ross, A., *Pagan Celtic Britain: Studies in Iconography and Tradition* t. 143

²²⁸ 'Vita et Translatio S. Wenefredae' yn *Two Mediaeval Lives of Saint Winefride* gol. a chyf. R. Pepin a H. Feiss, tt. 89-90

ffynnon sanctaidd yn y ffynonellau canoloesol, felly efallai bod y ddefod hon yn fwy diweddar.

Noda Rhys hefyd ddefodau i wella dafadennau; pigir y ddafaden â phin, yna plygir y pin a'i daflu i mewn i ffynnon. Er bod cofnod diweddar am arfer hon am Ffynnon Gynhafal a hefyd y defnydd o binnau wrth Ffynnon Fair ym Mhen-rhys, ni ddarganfuwyd unrhyw gofnod canoloesol amdanynt. Cofnoda Rhys arfer arall hefyd lle y golchir y rhan o'r corff sy'n dost mewn ffynnon sanctaidd gan ddefnyddio cerpyn, yna hongir y cerpyn ar goeden neu ger y ffynnon ond eto ni ddaethpwyd o hyd i gyfeiriadau penodol o'r ddefod hon yn y testunau yn yr astudiaeth hon. Er sonnir am lwyfen ger Ffynnon Wenfrewy, nid oes sôn am garpiau ond cred Daniel y gallai'r 'crysau'n llawn brychau gerbron', yng nghywydd Syr Dafydd Trefor gyfeirio at y ddefod hon.²²⁹ Fodd bynnag sonnir am grysau yn hytrach na charpiau ac ni allai Jones ddarganfod unrhyw dystiolaeth o'r arfer yng Nghymru, a oedd yn gynharach na'r ddeunawfed ganrif.

Ni ddaethpwyd o hyd i dystiolaeth ganoloesol ynglŷn â ffynhonnau a ddefnyddid i felltithio ychwaith. Honnodd Pennant y buasai pobl, a gafodd gam, yn defnyddio Ffynnon Elian ger Llandrillo i felltithio eu cymdogion ag anffawd fawr neu hyd yn oed marwolaeth.²³⁰ Yn ôl pob tebyg parhaodd y defodau i esblygu ar ôl yr Oesoedd Canol ac enghreifftiau o ddefodau mwy modern yw'r rhain.

Nid cael iachâd oedd yr unig reswm am ymweld â ffynnon sanctaidd; cred Baring-Gould a Fisher y cynhelid bedyddiadau yn Ffynnon Wenfrewy.²³¹ Buasai'n ddichonadwy y defnyddid dŵr ffynhonnau'r seintiau i gyd i fedyddio am fod y dŵr eisoes yn sanctaidd ond nid oes

²²⁹ R. I. Daniel, 'Y Ffynhonnau yng Nghanu'r Cywyddwyr', t. 77

Syr Dafydd Trefor, Cerdd 14, ll. 27 yn *Gwaith Syr Dafydd Trefor* gol. Rhiannon Ifans

²³⁰ Thomas Pennant, *Tours in Wales Vol. III* gol. John Rhys, tt. 149-50

²³¹ *Lives of the British Saints IV* gol. S. Baring-Gould a J. Fisher, t. 402

llawer o dystiolaeth yn y testunau. Ni sonnir am gynnal bedyddiadau'n benodol ond efallai bod Ieuan Brydydd Hir yn cyfeirio at yr arfer yn ei gerdd i Wenfrewy:

Mae yn ei ffons, man o'r ffydd,
Byd megis maen bedydd.²³²

Hefyd yng nghywydd Tudur Aled y mae llinell: 'Irder byd yw'r dŵr bedydd'²³³ a sonia Pennant am yr arfer o gasglu dŵr ar gyfer bedydd o Ffynnon Fair neu ffynnon sant arall a hen fenywod yn golchi eu llygaid yn y bedyddfaen wedi'r seremoni.²³⁴

Ymhellach, y mae'n debyg yr âi cariadon i Ffynnon Ddwynwen i ddatrys eu problemau rhamantus. Daw'r dystiolaeth sydd gennym am sut y caiff Ddwynwen ei rôl fel nawddsantes cariadon o'r chwedl sydd yn llawysgrifau Edward Williams (Iolo Morganwg),²³⁵ felly y mae'n rhaid ei thrin gyda gofal oherwydd iddo ffugio nifer o destunau yn ei lawysgrifau. Fodd bynnag, y mae'n debyg bod y cred am ei galluoedd i helpu cariadon yn bodoli'n gynt; mewn cerdd gan Dafydd ap Gwilym, y mae'r bardd yn gofyn yn ddigywilydd i Ddwynwen am fod yn llatai ac yn annog ei gariad (sy'n briod) i gwrdd ag ef.²³⁶ Y mae rhagor o dystiolaeth am rôl hwn Ddwynwen mewn cerdd gan Hywel Rheinallt:

Llyna ddŵr llonydd arab,
Llannerch, lle aml merch a mab.
Aur a roir yt ar yr allt,
A chwyr gan bob merch hirwallt.
Aed a gânt, ffyniant a ffawd,
O'th ddiweirdeb a'th wrdawd.²³⁷

²³² Ieuan Brydydd Hir, Cerdd 9, ll. 41-42 yn *Gwaith Ieuan Brydydd hir* gol. M. Paul Bryant-Quinn

²³³ Tudur Aled, Stori Gwenfrewy a'i Ffynnon, ll. 57 yn *Two Mediaeval Welsh Poems* gol. T. M. Charles-Edwards

²³⁴ Thomas Pennant, *Tours in Wales Vol. III* gol. John Rhys, t. 150

²³⁵ *Iolo Manuscripts* gol. Taliesin Williams (Liverpool: I. Foulkes, 1888) [Ar-lein] Ar gael ar: <https://archive.org/details/iolomanuscriptss00willuoft/page/84/mode/2up> <cyrchwyd 20 Mawrth 2021> tt. 83-84

²³⁶ Dafydd ap Gwilym, 'Galw ar Ddwynwen', Cerdd 48, ll. 19-20

²³⁷ Hywel Rheinallt, Cerdd 3, ll. 25-30 yn *Medieval Welsh Poems to Saints and Shrines* gol. Barry J. Lewis

Yn anffodus, nis chynhwysir unrhyw ddefod benodol. Cofnodir yn atodiad Fenton er bod y ffynnon wedi'i chau â thywod yn 1807, cyn hynny, yr oedd hen fenyw yn arfer proffwydo gobeithio cariadon. Buasai'n dehongli symudiadau llyswennod, a oedd yn y ffynnon, pan osodwyd cadach poced y cariad ar wyneb y dŵr²³⁸ ond nid oes sôn am ba adeg yr oedd yn gwneud hyn. Sonia'r gerdd, fodd bynnag, am y math o offrymau a disgwyliid wrth ofyn neu ddiolch i sant neu santes am eu cymorth ac yn ôl pob tebyg cynhwyswyd y cyfeiriadau hyn i atgoffa'r pererinion.

Er na chrybwyllir offrymau ym mucheddau'r saint, dywed Lewys Glyn Cothi y daw Eduful ag arian neu aur i Non²³⁹ a chyfeiriau Gwilym Tew at y swm mawr ohonynt yn Ffynnon Fair.²⁴⁰ Mewn dwy gerdd i Ddwynwen²⁴¹ hefyd sonnir am roi 'chweugeiniau', sef hanner sofrenni, 'grotiau' ac 'arian ceimion', sef darnau o arian wedi'u plygu, efallai fel modd i rwystro unrhyw ladron, a oedd wrth y ffynnon, rhag mynd ag ef. Ymhellach fel y dywed Ifans, mynega Syr Dafydd Trefor y byddai Ddwynwen yn gwneud yn hysbys, trwy'r offrwm y maent yn ei roi, y bobl sydd wedi cael eu cyfoeth trwy dwyll.²⁴²

Cesglid swm sylweddol o arian wrth rai ffynhonnau; noda Williams fod y ffynnon ym Mhenrhys yn ennill chwe phunt y flwyddyn a Ffynnon Wenfrewy yn ennill deg punt y flwyddyn yn yr unfed ganrif ar bymtheg gynnar.²⁴³ Yn ychwanegol, ar un adeg yr oedd gwerth yr arian ceimion yn Ffynnon Ddwynwen ddeg gwaith gwerth degymau'r plwyf.²⁴⁴ Yn aml, defnyddiwyd yr arian hwn i wella'r gysegrfa; megis ychwanegu delw neu gapel a chododd ddigon o arian gan Ffynnon Ddyfnog i dalu am ffenestr Jesse ysblennydd sydd yn Eglwys

²³⁸ Fenton, Richard, *Tours in Wales (1804-1813)* t. 269

²³⁹ Lewys Glyn Cothi, Cerdd 19, ll. 38 yn *Medieval Welsh Poems to Saints and Shrines* gol. Barry J. Lewis

²⁴⁰ Gwilym Tew, ll. 31-32 yn G. Hartwell Jones, *Celtic Britain and the Pilgrim Movement*

²⁴¹ Syr Dafydd Trefor, Cerdd 14, ll. 37 a 40 yn *Gwaith Syr Dafydd Trefor* gol. Rhiannon Ifans

Hywel Rheinallt, Cerdd 3, ll. 37 yn *Medieval Welsh Poems to Saints and Shrines* gol. Barry J. Lewis

²⁴² *Gwaith Syr Dafydd Trefor* gol. Rhiannon Ifans, tt. 187-88, n. 45-50

²⁴³ Glanmor Williams, 'Poets and Pilgrims in Fifteenth and Sixteenth Century Wales', t. 91

²⁴⁴ Hurlock, K., *Medieval Welsh Pilgrimage c.1100-1500*, t. 95

Sant Dyfnog gerllaw. Ymhellach honna Hywel Rheinallt fod cymaint o bererinion yn mynd i Ffynnon Dwynwen, yr oedd ei phorthwys (badwr ar fferi) yn gyfoethocach na'r uchelwyr:

Bychan yw swydd arglwyddi
Wrth ystâd dy borthwys di.²⁴⁵

Ar wahân i aur ac arian, offrwm cyffredin arall oedd cwyr a disgrifir cynnau canhwyllau wrth gysegrfeydd mewn sawl cerdd. Yr oedd cwyr yn ddrud ond yn symbol o ffydd, felly âi'r pererinion â'r gannwyll fwyaf y gallent ei fforddio i fynegi eu defosiwn mawr; yn ôl Rhisiart ap Rhys, â Elspeth Mathau â 'pwys dau gant mewn pyst o gŵyr',²⁴⁶ i Ffynnon Fair. Yr oedd cannwyll Howel Swrddwal i'r un santes cyn daled ag ef: 'kwyr ar vy llun vy hunan',²⁴⁷ a rholid canhwyllau hir fel hyn i'w gwneud yn haws eu cludo. Y mae gan Eduful ganhwyllau o liwiau gwahanol i'w rhoi i'r seintiau ar ei phererindod: melyn i Non, coch i Ddewi a gwyn i'r Grog o Gaer. Dywed y bardd fod Eduful yn gwneud hyn yn rheolaidd ond yn anffodus ni noda pam y mae'n rhoi'r wahanol liwiau. Y mae'n bosibl bod cost y canhwyllau'n amrywio yn ôl eu lliw neu efallai bod rhyw arwyddocâd symbolaidd i'r lliwiau. Yr oedd cwyr Lewys Morgannwg, ar y llaw arall, wedi'i cherfio ac fel y dywed Lewis, gallai fod wedi bod ar ffurf organ neu aelod corff afiach ond gwneid canhwyllau ar ffurf pethau eraill megis llong pe bai'r unigolyn yn mynd ar fordaith. Yn llaw chwith y bardd hefyd y mae llaswyr; gall hwn gyfeirio at Lyfr y Salmau neu rosari, gan gryfhau'r syniad fod cysylltiad agos rhwng ei bererindod a'i ffydd:

I'm llaw iawn yn cau mae llun cwyr,
I'm llaw asau mae llaswyr.²⁴⁸

²⁴⁵ Hywel Rheinallt, Cerdd 3, ll. 41-42 yn *Medieval Welsh Poems to Saints and Shrines* gol. Barry J. Lewis

²⁴⁶ Rhisiart ap Rhys, Cerdd 29, ll. 52 yn *Gwaith Rhys Brydydd a Rhisiart ap Rhys* gol. Eurys I. Rowlands

²⁴⁷ Howel Swrddwal, ll. 33 yn G. Hartwell Jones, *Celtic Britain and the Pilgrim Movement*, t. 561

²⁴⁸ Lewis Morgannwg, Cerdd 103, ll. 69-70 yn *Gwaith Lewys Morgannwg II* gol. A. Cynfael Lake

Cynhwysa'r offrymau wisgoedd gwerthfawr, megis yr un a roddwyd i Wenfrewy gan Isobel ond yn ychwanegol gadawodd y bobl, a iachawyd, wrthrychau, megis y ffyn a ffyn baglau nad oedd angen arnynt bellach. Buasai'r rhoddion megis y canhwylau'n llosgi a'r gwrthrychau eraill hyn, a oedd symbolau o effeithiolrwydd triniaeth y sant neu'r santes, yn cyfoethogi profiad y pererinion eraill.

Pa reswm bynnag oedd gan y pererin am fynd ar bererindod, mae'r cerddi'n dyst i'r tyrrau a hefyd i'r amrywiaeth o bobl a ymwelodd â ffynhonnau sanctaidd Cymru. Weithiau'r bardd ei hun sy'n mynd neu'r cyhoedd ond y mae'n amlwg y buasai pobl o bob dosbarth cymdeithasol yn mynd, er enghraifft: 'pobl o'r wlad', 'pob iarll ... pob brenin'. Enwir y Brenin Edwart IV yn benodol fel ymwelydd i Ffynnon Wenfrewy a deuai pobl o dramor megis y 'merched o amrafael wledydd',²⁴⁹ a ymwelodd â Ffynnon Ddwynwen. Y mae hefyd ychydig o wybodaeth am sut y teithiai'r pererinion yn y testunau: daethent at Ddwynwen 'o'r tir ... o'r dŵr',²⁵⁰ yr oedd y dyn anabl a ymwelodd â Ffynnon Wenfrewy 'conveyed in a carriage' ac aeth Gwilym Tew i Ffynnon Fair ym Mhen-rhys gyda'i gannwyll fawr ar ei lin,²⁵¹ felly tybir ei fod ar gefn ceffyl.

Crybwyllir yn y farddoniaeth amserau arbennig i fynd i'r ffynhonnau ond ni roddir rheswm dros y dyddiad. Sonia Gwilym Tew am fynd i Ffynnon Fair 'oed parerin',²⁵² er nad yw'n ymhelaethu ond noda beirdd eraill mai yng nghanol haf²⁵³ yw'r amser arbennig. Cred James fod hyn yn cyfeirio at Alban Hefin (21 Mehefin) neu Wyl Ifan (24 Mehefin),²⁵⁴ felly efallai bod cysylltiadau paganaidd yn ogystal â Christnogol i'r adeg. Yn yr un modd â chysegrodd

²⁴⁹ Syr Dafydd Trefor, Cerdd 14, ll. 19 yn *Gwaith Syr Dafydd Trefor* gol. Rhiannon Ifans

²⁵⁰ Hywel Rheinallt, Cerdd 3, ll. 35-36 yn *Medieval Welsh Poems to Saints and Shrines* gol. Barry J. Lewis

²⁵¹ Gwilym Tew, ll. 42 yn G. Hartwell Jones, *Celtic Britain and the Pilgrim Movement*, t. 560

²⁵² *ibid.*, ll. 42

²⁵³ Rhisiart ap Rhys, Cerdd 5, ll. 48 yn *Gwaith Rhys Brydydd a Rhisiart ap Rhys* gol. Eurys I. Rowlands ('mernos haf')

Huw Cae Llwyd, Cerdd III, ll. 34 yn *Gwaith Huw Cae Llwyd ac Eraill* gol. Leslie Harries (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1953) (am hanner haf)

²⁵⁴ Christine James, 'Pen-rhys: Mecca'r Genedl', t. 47

Dewi'r ffynhonnau yng Nghaerfaddon, efallai cafodd y ffynnon baganaidd ei bendithio er mwyn cael ei defnydd gan ffydd arall. Meddylia M. Paul Bryant-Quinn fod '[G]ŵyl Ieuan' yng ngherdd Ieuan Brydydd Hir i Wenfrewy yn cyfeirio at fynd i'r ffynnon adeg Ŵyl Ifan sy'n agos iawn at Ŵyl y *Decollatio* ar 22 Mehefin.²⁵⁵ Âi mwy o bererinion i'r ffynhonnau i ddathlu gŵyl y sant ond yn rhyfedd noda Hywel Rheinallt am dorfeydd yn mynd i ymweld â Ffynnon Ddwynwen ym mis Awst,²⁵⁶ er mai 25 Ionawr yw dyddiad ei gŵyl. Fodd bynnag yn ôl William Worcester, hynafiaethydd y bymthegfed ganrif, y mae ei gŵyl yn cael ei dathlu ar y Sul sy'n dilyn Gŵyl San Pedr ad Vincular, sef 1 Awst.²⁵⁷

Ar y llaw arall, er y buasai mwy o bobl yn ystod yr cyfnodau hyn, y mae'n amlwg yr âi pererinion i'r ffynhonnau fel y dymunent. Awgryma Gwilym Tew ei bod yn arferol mynd i Ben-rhys ar unrhyw adeg o'r flwyddyn: 'hyd gwanwyn a haf cynhaeaf gauaf'²⁵⁸ a gwyddom o gerdd Lewys Glyn Cothi yr âi Edudful ar ei phererindod leol ar ddydd Sul i weddio dros ei meibion a gofyn i'r seintiau eu hamddiffyn rhag salwch a niwed. Dywed Hurlock i fenywod dueddu i bererindota'n lleol oherwydd y peryglon o deithio²⁵⁹ ac efallai bod cysyniad y buasai sant lleol yn edrych yn fwy ffafriol ar ofynion person lleol ac, o ystyried ei phererindod gyson, bod effaith gynyddol. Fodd bynnag, yn ôl pob tebyg, teithiai pobl ymhellach pe cynigiai ffynnon benodol iachâd arbennig. Cofnoda'r Prior Robert i ferch ddall a'i thad gyrraedd Ffynnon Wenfrewy 'at a late hour' oherwydd eu bod wedi clywed am y santes a rhinweddau ei ffynnon,²⁶⁰ felly y mae'n amlwg eu bod wedi teithio o bell trwy'r dydd.

²⁵⁵ *Gwaith Ieuan Brydydd hir* gol. M. Paul Bryant-Quinn, t. 147, n. 35

²⁵⁶ Hywel Rheinallt, Cerdd 3, ll. 40 yn *Medieval Welsh Poems to Saints and Shrines* gol. Barry J. Lewis

²⁵⁷ C.Z. Hulbert-Powell 'Allusions to the Isle of Anglesey in the Itinerarium of William Worcester', *Anglesey Antiquarium Society and Field Club Transactions* 1949 yn *Medieval Welsh Poems to Saints and Shrines* gol. Barry J. Lewis

²⁵⁸ Gwilym Tew, ll. 63-64 yn G. Hartwell Jones, *Celtic Britain and the Pilgrim Movement*, t. 561

²⁵⁹ Hurlock, K., *Medieval Welsh Pilgrimage c.1100-1500*, t. 55

²⁶⁰ 'Vita et Translatio S. Wenefredae' yn *Two Mediaeval Lives of Saint Winefride* gol. a chyf. R. Pepin a H. Feiss, t. 69

Yr oedd cyswllt anorfod rhwng y seintiau a'u ffynhonnau ac y mae bucheddau'r saint a'r farddoniaeth yn dyst i'w pwysigrwydd ym mywydau'r pererinion o bob oed a chefnidir cymdeithasol. Codwyd y ffynhonnau gan y seintiau i ddiwallu eu hanghenion sylfaenol ond parhaodd y ffynhonnau sanctaidd hyn i ddatrys problemau meddygol, meddyliol, ysbrydol, barnwrol a rhamantus y bobl am ganrifoedd wedyn. Yr oedd parch y bobl tuag atynt yn amlwg trwy eu hymweliadau a'u hoffrymau gwerthfawr.

Diwedd glo

Dywed Jones mai ‘doctors to the peasantry’²⁶¹ oedd ffynhonnau sanctaidd ac yn wir, er bod hyn yn ymddangos ychydig yn nawddoglyd inni heddiw, iacháu oedd y prif reswm dros bobl yn ymgynnull wrth y ffynhonnau: i ddiolch am y gwellhad y maent hwy neu aelod o’u teulu wedi’i gael neu i ymofyn am iachâd naill ai drostynt eu hunain neu ar ran rhywun arall. Fodd bynnag yn ogystal â’r werin, âi uchelwyr, gan gynnwys brenhinoedd,²⁶² i gael eu hiacháu a chynigiai’r ffynhonnau lawer mwy, megis datguddio troseddwy a rhoi cymorth i’r sawl sydd â phroblemau serch.

Credid bod Dduw yn gweithredu trwy’r seintiau i gyflawni gwyrthiau a hyd yn oed ar ôl eu marwolaeth, parhâi gwyrthiau i gael eu gweithredu trwy eu creiriau eilaidd, megis y ffynhonnau a godwyd ganddynt. Awgrymir yn yr astudiaeth hon darddiadau posibl y motiffau a ddefnyddir yn y chwedlau am y ffynhonnau sanctaidd a grëwyd gan y seintiau ond, yn anffodus, nid oes modd bod yn fanwl gywir. Gan fod y traddodiadau wedi esblygu dros y canrifoedd cyn cael eu hysgrifennu, y mae’n debyg eu bod yn gynnrych sawl dylanwad gwahanol. Er hynny, y mae’n amlwg bod y chwedlau ysgrifenedig yn cynrychioli credoau’r Cymry am fod llawer o’r un manylion yn ymddangos ym marddoniaeth Beirdd yr Uchelwyr.

Amrywia’r cerddi’n eang o ran faint o wybodaeth am y ffynhonnau y maent yn ei gynnwys a hefyd o ran eu natur. Y mae rhai ohonynt yn wrthrychol, gan adrodd hanes y sant sydd yn ei fuchedd ond y mae eraill yn fwy personol, lle y mae’r bardd ei hun yn gofyn am gymorth wrth y ffynnon. Noddwyd rhai o’r beirdd gan glerigwyr neu ofalwyr y ffynhonnau, a allai fod wedi dylanwadu ar gynnwys eu cerddi ac, er bod elfen o bropaganda’n perthyn i’r cerddi, y

²⁶¹ F. Jones, *The Holy Wells of Wales*, t. 29

²⁶² Yn ei hastudiaeth ddiweddarach, daeth Kathryn Hurlock i’r casgliad na ddaeth brenhinoedd i fannau pererindota yng Nghymru am resymau gwleidyddol. K. Hurlock, *Medieval Welsh Pilgrimage c.1100-1500*, t. 196

mae gan y farddoniaeth grefyddol naws ddiffuant hefyd. Portreadir y cyhoedd, weithiau ffigurau enwog, yn defnyddio'r ffynhonnau ac yn mynd ag offrymau sy'n dangos eu parch tuag at y seintiau a'u creiriau. Dengys rhai ffyddlondeb i'w sant lleol ond yr oedd yn rhaid i eraill deithio'n bell i gael triniaeth arbennig, a oedd ar gael wrth ffynnon arall. Credai y buasai'r sant yn eu cynorthwyo, yn enwedig pe baent yn dilyn y camau penodol yn ôl y traddodiad.

Darperir disgrifiad o wedd ganoloesol rhai o'r ffynhonnau yn y farddoniaeth, buasai'r ddelwedd sy'n defnyddio'r pum synnwyr, ynglŷn â darlun o'r dirwedd, yn galluogi'r bobl, a oedd yn eu darllen neu'n gwrandao arnynt, i'w dychmygu. Y mae hyn yn hwylus o hyd, gan ddarparu cofnod unigryw o'r hyn a ddigwyddodd ar lan y ffynnon. Ymhellach, disgrifir llawer o'r defodau, rhai sydd wedi goroesi hyd heddiw, megis ymdrochi yn Ffynnon Wenfrewy deirgwaith. Y mae pererinion, Catholig yn bennaf, yn parhau i ymweld â'r ffynhonnau sanctaidd ac chynnu canhwylau yn yr eglwys ac fel y dywed Daniel, nid yw gofyn i sant am gymorth yn wahanol iawn i berson ofyn i rywun arall weddio drosot.²⁶³

Ni ddaethpwyd o hyd i gyfeiriadau yn y cerddi canoloesol at roi pinnau mewn ffynhonnau a chlymu clytiau wrth goeden neu lwyn er bod hyn yn digwydd yn cyffredin ar lan ffynhonnau ers y bedwaredd ganrif ar bymtheg.²⁶⁴ Tueddir i gredu mai hen arferiad yw hwn ond mewn gwirionedd anodd yw dyddio rhai o'r defodau ar lan y ffynhonnau heb dystiolaeth gynradd gynharach sy'n dyst i'r traddodiadau hyn. Y mae prinder manylion am rai o'r ffynhonnau hefyd ond efallai bod rhagor o fucheddau a barddoniaeth nad ydynt wedi cael eu chyhoeddi eto. Ymhellach, y mae mwyafrif o'r cerddi dan sylw am y safleoedd pererindod mawr, megis Ffynnon Fair ym Mhen-rhys, Ffynnon Gwenfrewy, Tyddewi ac i ryw raddau Ffynnon Ddwynwen ond prin yw'r wybodaeth am rai o'r gyltiau lleol eraill. Ni wyddys, wrth reswm,

²⁶³ R. I. Daniel, 'Y Ffynhonnau yng Nghanu'r Cywyddwyr', t. 72

²⁶⁴ Trafodir y defodau hyn yn F. Jones, *The Holy Wells of Wales*, tt. 92-95

faint o'r bucheddau a'r cerddi a gylchredai ar lafar nas cofnodwyd yn ysgrifenedig nac ychwaith faint o lawysgrifau a gollwyd.

Rhwysr arall yw arddull Beirdd yr Uchelwyr; gall y cerddi fod yn gryptaidd ac anodd eu dehongli ac y mae'n bosibl gweld ystyr nad oedd y bardd yn bwriadu. Yn ychwanegol, weithiau yn hytrach nag adrodd stori gyfan, cyfeiria'r beirdd at rywbeth y buasai'r cynulleidfa ganoloesol yn deall ond sydd y tu hwnt i ddealltwriaeth y darlennydd modern. Er hynny, dengys yr astudiaeth hon y credoau canoloesol am sut y crëwyd y ffynhonnau sanctaidd a'r defodau, a gyflawnid wrth rai o'r ffynhonnau, yn bennaf prif gysegrfeydd yr Oesoedd Canol. Amlygir gwedd wreiddiol rhai o'r ffynhonnau a'r modd y newidiasant a hefyd gwedd pethau eraill, megis delwau, addurniadau a'r dirwedd, y buasai'r pererinion wedi'u gweld wrth ymweld â'r ffynhonnau. Ymhellach, dangosir bod llawer o'r credoau, y traddodiadau a'r defodau, a fodolai yn oes y bucheddwyr, yn dal i gylchredeu ganrifoedd diweddarach yn oes Beirdd yr Uchelwyr.

Atodiad A: Y Beirdd

Yn yr astudiaeth hon trafodir barddoniaeth y beirdd canlynol:

- Dafydd ap Gwilym (fl. hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar ddeg)
- Dafydd ap Llywelyn ap Madog (fl. yr unfed ganrif ar bymtheg)
- Dafydd Benwyn (fl. ail hanner yr unfed ganrif ar bymtheg)
- Dafydd Epynt (fl. c. 1460)
- Syr Dafydd Trefor (fl. hanner cyntaf yr unfed ganrif ar bymtheg)
- Gruffudd ab Ieuan ap Llywelyn Fychan (fl. hanner cyntaf yr unfed ganrif ar bymtheg)
- Gwilym Tew (fl. c. 1460 - 1480)
- Gwynfardd Brycheiniog (fl. c. 1180)
- Howel Swardwal (fl. 1430 – 1460)
- Huw Cae Llwyd (fl. 1431 - 1504)
- Hywel Rheinallt (fl. c. 1471 - 1494)
- Ieuan ap Huw Cae Llwyd (fl. 1475 - 1500)
- Ieuan ap Rhydderch (fl. hanner cyntaf y bymthegfed ganrif)
- Ieuan Brydydd Hir (fl. c. 1450)
- Ieuan Llwyd Brydydd (fl. c. 1460 - 1490)
- Iolo Goch (fl. 1345 - 1397)
- Lewys Glyn Cothi (fl. 1447 - 1486)
- Lewys Morgannwg (fl. 1520 - 1565)
- Llywelyn ap Hywel ab Ieuan ap Goronwy (fl. c. 1480)
- Rhisiart ap Rhys (fl. c. 1495 - c. 1510)
- Syr Robert Miltwn
- Tudur Aled (fl. 1480 - 1526)
- Wiliam Bursinsia (fl. yr ail ganrif ar bymtheg)
- Wiliam Middleton (c. 1550 - c. 1600)

Atodiad B: Cerddi Crefyddol i'r Seintiau a Drafodir yn yr Astudiaeth Hon

Nodir enw'r bardd a llinell gyntaf y gerdd ar gyfer pob sant a santes.

Cathen

Dafydd Epynt – Blin o fab ei lun wyf i

Collwyn

Dafydd Benwyn – Duw gwyn i'm Benwyn beunydd-y fo'n nerth

Cynhafal

Gruffudd ab Ieuan ap Llywelyn Fychan – Y ceidwad rhag gwayw adwyth

Deiniol

Syr Dafydd Trefor – Mae'm Mangor drysor a drig

Dewi

Gwynfardd Brycheiniog – A'm rhoddo Dofydd (dedwydd dewaint)

Ieuan ap Rhydderch – Wrth glybod chwedl tafod Dyfr

Iolo Goch – Dymuno da i'm enaid

Lewys Glyn Cothi – Yr archesgob ar bob iaith

Lewys Glyn Cothi – Mae 'mhwys, mewn crwys, lle croesant

Rhisiart ap Rhys – Swrn o dir a siwrnai dyn

Doged

Ieuan Llwyd Brydydd – A fynno gweirio gwared, yn ddi-dranc

Dyfnog

Dafydd ap Llywelyn ap Madog – Dyfnog, wr dwfn a garaf

Llawddog

Lewys Glyn Cothi – Un sant ag a enwais i

Y Santesau

Dwynwen

Dafydd ap Gwilym – Dwynwen deigr arien degwch

Syr Dafydd Trefor – Y ferch wen o Frycheiniog

Hywel Rheinallt – Y ferch o nef, Fychan waed

Gwenfrewy

Anhysbys – Rhedodd o'r ddaear hoywdeg

Anhysbys – Y ferch addwyn ei hwyneb

Ieuan Brydydd Hir – Y fun wyrf o'r fan oror

Syr Robert Miltwn – Treffynnon dirion lle da i weryd - klaf

Tudur Aled – Y ferch wen, fu'r ychwaneg

Wiliam Bursinsia – Croew ddwr iach, ferwddwr fowrddawn

Mair

Gwilym Tew – Ynys yw penn Rys yn Rwyn y fforest

Howel Swrdwal – Y vun deg a vendigwyd

Huw Cae Llwyd – Aeth gwŷs i Ben-Rhys lle rhoesan' – i ffordd

Ieuan ap Huw Cae Llwyd – Mair fawr nef a llawr yw'r llys - a'r ffynnon

Lewys Morgannwg – Y ferch wry, Fair, â choron

Lewys Morgannwg – Mae nawnef mewn un ynys

Llywelyn ap Hywel ab Ieuan ap Goronwy – Dwyn eneid pob dyn jniawn

Rhisiart ap Rhys – Gwŷr y deml a'u geiriau dig

Rhisiart ap Rhys – Hawddfyd hael oedd fywyd hwn

Non

Lewys Glyn Cothi – Y Grog wyn o Gaer a gaid

Cerddi Eraill

Cerdd Protestanaidd

Wiliam Midleton – Ffynnon Gwenfrewy ae chyffunydh

Cerdd am Bererindod dros y Môr

Lewys Glyn Cothi – Ba dir yw wyneb y dawn?

Atodiad C: Dulliau Creu Ffynnon – y Seintiau Gwrywaidd

Dull o greu ffynnon	Rheswm dros greu'r ffynnon	Sant/Duw	Prif ffynhonnell gwybodaeth
Bwrw'r ddaear gyda bagl + gweddïo	Torri syched	Gwynllyw	Vita Sancti Gundleii
Bwrw'r ddaear gyda bagl	Torri syched	Tylywai (gyda bagl Cadog)	Vita Sancti Cadoci
Bwrw'r ddaear gyda bagl	Torri syched	Cadog	Vita Sancti Cadoci
Bwrw'r ddaear gyda bagl	Lle sych (ateb Terddi)	Dewi	Vita Sancti David
Bwrw'r ddaear gyda bagl	Dŵr ffres ar yr arfordir	Illtyd	Vita Sancti Illtuti
Bwrw craig gyda bagl	Torri syched	Cybi	Vita Sancti Kebii
Bwrw'r ddaear gyda bagl gweddïo + dŵr Afon Iorddonen	Lle sych	Deiniol	Legenda 9 Lectionu de Scto Daniele Epo Bangoriesi
Bwrw'r ddaear gyda bagl a gweddïo	Torri syched	Ieuan Gwas Padrig	Buched Ieuan Gwas Badric
Traed y ceffyl yn bwrw'r ddaear	Lle sych	Ceffyl Tathan	Vita Sancti Tathei
Gweddïo	Bedyddio Cadog	Meuthi	Vita Sancti Cadoci
Gweddïo	Torri syched gweithwyr	Sophias (enw arall Cadog)	Vita Sancti Cadoci
Gweddïo	Lle gyda diffyg dŵr	Dewi	Vita Sancti Daud
Gweddïo?	Torri syched	Gwestlan	Hystoria o Uuchedd Dewi
Gweddïo?	Torri syched	Eliud	Hystoria o Uuchedd Dewi
Dagrau yn bwrw'r ddaear	?	Samson	Vita Sancti Illtuti
Yn ddigymell gan Dduw	Bedyddio Dewi	Duw	Vita Sancti David
Cwyn Tecychius i Dathan	Dŵr i'r moch	Duw pan glywodd y cwyn	Vita Sancti Tathei
Yn ddigymell gan Dduw	Torri syched	Duw	Vita Sancti Teliaui
Torri pen y gwas?	?	Gwas Cathen	Cywydd Dafydd Epynt

Dulliau Creu Ffynnon – y Santesau

Dull o greu ffynnon	Tramgwyddwr	Enw'r ffynnon a'i rhinweddau	Testun
Torrodd ben Gwenfrewy ymaith – ffynnon lle y glaniodd ei gwaed	Caradog	Ffynnon Wenfrewy - iachusol	Vita Sancte Wenefrede Hystoria o Uchedd Beuno
Torrodd ben Gwenfrewy ymaith – ffynnon lle y glaniodd ei phen	Caradog	Ffynnon Wenfrewy - iachusol	Vita et translation S. Wenefredae Buchedd Gwenfrewi
Torrodd ben Dunawd ymaith – gwaed ar y llawr	Gwraig Boya (llys-fam Dunawd)	Ffynnon Ddunawd - iachusol	Vita Sancti David
Torrodd ben Tigiwg ymaith – gwaed ar y llawr	Gŵr Tigiwg	Ffynnon Digiwg - iachusol	Hystoria o Uchedd Beuno

Newid Ffynhonnau a fodolai eisoes

Dull o newid y ffynnon	Canlyniad	Sant/Duw	Testun
Golchi briwiau yn y dŵr	Ffynnon iachusol (Fons Rubeus)	Brynach	Uita Sancti Bernachii
Penydio yn y dŵr	Ffynnon iachusol	Dyfnog	Cerdd Dafydd ap Llywelyn ap Madog
Yn ddigymell gan Dduw	Dŵr ffynnon bedydd Cadog yn blasu fel medd	Duw	Vita Sancti Cadoci
Yn ddigymell gan Dduw	Dŵr ffynnon yn troi yn win	Duw	Vita Sancti David
Cael ei chysegru gan Ddewi	Ffynhonnau 'gwenwynig' Caerfaddon yn troi yn iachusol	Dewi	Vita Sancti David

Llyfryddiaeth

Ffynonellau Gwreiddiol Printiedig

‘Buchedd Ieuan Gwas Padrig’ gol. a chyf. Jane Cartwright, gwefan *Seintiau yng Nghymru/Saints in Wales* (forthcoming)

Cambrensis, Geraldus, *The Journey Through Wales and The Description of Wales* gol. a chyf. Lewis Thorpe (Harmondsworth: Penguin, 1978)

Celtic Britain and the Pilgrim Movement gol. G. Hartwell Jones (London: The Hon. Society of Cymmrodorion, 1912)

Coflein: Cronfa ddata ar-lein Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru (CHCC) [Ar-lein] Ar gael ar: <https://coflein.gov.uk/cy/> <Cyrchwyd 22 Mai 2021>

Cyfraith Hywel [Ar-lein] Ar gael ar: <http://cyfraith-hywel.cymru.ac.uk/mynegai.php?func=filter&orderby=&ms=&tr=&rh=Gwagedd&ad=&src=h=&du=> <Cyrchwyd 30 Gorffennaf 2021>

‘Cynog: texts’ yn *Seintiau* [Ar-lein] Ar gael ar: <https://welshsaints.ac.uk/wp-content/uploads/2015/10/Hugh-Thomas-on-Cynog.pdf> <Cyrchwyd 12 Mehefin 2021>

Dafydd ap Gwilym.net [Ar-lein] Ar gael ar: http://www.dafyddapgwilym.net/index_eng.php <Cyrchwyd 20 Chwefror 2021>

Dr Johnson & Mrs Thrale’s Tour in North Wales 1774 gol. Adrian Bristow (Wrexham: Bridge Books, 1995)

Gwaith Dafydd Epynt gol. Owen Thomas (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 2002)

Gwaith Huw Cae Llwyd ac Eraill gol. Leslie Harries (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1953)

Gwaith Ieuan Brydydd hir gol. M. Paul Bryant-Quinn (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 2000)

Gwaith Lewys Morgannwg II gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 2004)

Gwaith Llywelyn Fardd I ac Eraill o Feirdd y Ddeuddegfed Ganrif gol. Kathleen Anne Bramley et al (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1994)

Gwaith Rhys Brydydd a Rhisiart ap Rhys gol. Eurys I. Rowlands (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1976)

Gwaith Syr Dafydd Trefor gol. Rhiannon Ifans (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 2005)

Iolo Manuscripts gol. Taliesin Williams (Liverpool: I. Foulkes, 1888) [Ar-lein] Ar gael ar: <https://archive.org/details/iolomanuscriptss00willuoft/page/84/mode/2up> <cyrchwyd 20 Mawrth 2021>

Lhuyd, Edward, *Parochialia Parts I-III* gol. Rupert H. Morris (London: Cambrian Archaeological Association, 1909-1911)

Lives of the British Saints: the saints of Wales and Cornwall and such Irish saints as have dedications in Britain Vol IV gol. S. Baring-Gould, S. a J. Fisher (London: The Honourable Society of Cymmrodorion, 1913)

Medieval Welsh Poems to Saints and Shrines gol. Barry J. Lewis (Dublin: School of Celtic Studies, Dublin Institute for Advanced Studies, 2015)

Pedeir Keinc y Mabinogi, gol. Syr Ifor Williams, (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1930)

‘Rhygyfarch’s Life of David’ gol. a chyf. R. Sharpe a J. R. Davies yn *St David of Wales: Cult, Church and Nation* gol. J. W. Evans a J.M. Wooding (Woodbridge: Boydell Press, 2007) [Ar-lein] Ar gael ar: https://web-a-ebsohost-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/ehost/ebookviewer/ebook/bmxlYmtfXzI3ODEwMV9fQU41?sid=464f274e-df61-4110-8d14-0b587635695a@sessionmgr4008&vid=0&format=EB&lpid=lp_107&rid=0 <cyrchwyd 25 Mehefin 2021>

Rhys, John, *Celtic Folklore: Welsh and Manx Volume 1* (Cambridge: Cambridge University Press, 2015)

Seintiau Cymru/Welsh Saints [Ar-lein] Ar gael ar <https://www.seintiaucymru.ac.uk> <Cyrchwyd 10 Ebrill 2021>

The Liber Landavensis, Llyfr Teilo, or the Ancient Register of the Cathedral Church of Llandaff gol. W. J. Rees (Llandoverly: William Rees, 1840)

The Life of St. Samson of Dol gol. a chyf. T. Taylor (London: Society for Promoting Christian Knowledge, 1925)

The Welsh Life of David gol. D. Simon Evans (Cardiff: University of Wales Press, 2016)

Two Mediaeval Lives of Saint Winefride gol. a chyf. R. Pepin a H. Feiss (Eugene: Wipf and Stock, 2000)

Two Mediaeval Welsh Poems: Stori Gwenfrewi a’i Ffynnon and Ffynnon Wenfrewi gol. T. M. Charles-Edwards (Llandysul: Gwasg Gomer, 1971)

Vitae Sanctorum Britanniae et Genealogiae gol. a chyf. A. W. Wade-Evans (Cardiff: Welsh Academic Press, 2013)

Williams, Ifor, 'Protestaniaeth Wiliam Middleton' yn *The Bulletin of the Board of Celtic Studies* Vol III (1937) 242-247

Y Beibl Cymraeg Newydd, arg. diwygiedig (Swindon: Cymdeithas y Beibl, 2004)

Ffynonellau Eilaidd

Baring-Gould, S. a Fisher, J., *Lives of the British Saints: the saints of Wales and Cornwall and such Irish saints as have dedications in Britain Vol I-III* (London: The Honourable Society of Cymmrodorion, 1907-1911)

Bradley, I., *Water: A Spiritual History* (London: Bloomsbury, 2012) [Ar-lein] Ar gael ar: <https://www.vlebooks-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/Vleweb/Product/Index/317090?page=0> <Cyrchwyd 7 Tachwedd 2020>

Callander, David, 'Y Seintiau a Thradoddiad Llenyddol: Achos y Canu i Wenfrewy' yn *Studia Celtica* LIV (2020) 99-114

Cartwright, J., *Feminine Sanctity and Spirituality in Medieval Wales* (Cardiff: University of Wales Press, 2008)

Cartwright, J., 'The Cult of St Non: rape, sanctity and motherhood in Welsh and Breton hagiography' yn *St David of Wales: Cult, Church and Nation*, goln. J. W. Evans a J. M. Wooding (Woodbridge: The Boydell Press, 2007) [Ar-lein] Ar gael ar: https://web-b-ebsohost-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/ehost/ebookviewer/ebook/bmxlYmtfXzI3ODEwMV9fQU41?sid=f07e71a-0410-4e6e-91d5-bce1a69e25aa@pdc-v-sessmgr01&vid=0&format=EB&lpid=lp_161&rid=0 <Cyrchwyd 12 Mawrth 2021>

Cartwright, Jane, 'The Welsh Versions of the Life of Gwenfrewy' yn *Saints in Wales* goln. Paul Russell a David Parsons (Cardiff: University of Wales Press, forthcoming)

Cartwright, J., *Y Forwyn Fair, Santesau a Lleianod: Agweddau ar Wryfyddod a Diweirdeb yng Nghymru'r Oesoedd Canol* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1999)

Charles-Edwards, T., 'Pen-rhys: Y Cefnder Hanesyddol: 1179-1538' yn *Efrydiau Catholig* V (1951) 24-40

Charles-Edwards, T., *Saint Winefride and Her Well: The Historical Background* (London: The Incorporated Catholic Truth Society, 1962)

Daniel, R. I., 'Y Ffynhonnau yng Nghanu'r Cywyddwyr' yn *Dwned: Cylchgrawn Hanes a Llen Cymru'r Oesoedd Canol*, Rhif 7 (2001) 65-81

Doble, G. H., *Lives of the Welsh Saints* gol. D. Simon Evans (Cardiff: University of Wales Press, 2013)

- Evans, D. S., 'Y Buchddau' yn *Y Traddodiad Rhyddiaith yn yr Oesau Canol*, gol G. Bowen (Caerfyrddin: Gwasg Gomer, 2015) [Ar-lein] Ar gael ar: <https://llyfrgell.porth.ac.uk/View.aspx?id=1635~4p~QbzAupJt> < Cyrchwyd 17 Awst 2020>
- Fenton, Richard, *Tours in Wales (1804-1813)* (London: Bedford Press, 1917) [Ar-lein] Ar gael ar: <https://archive.org/details/toursinwales180400fentrich/page/322/mode/2up> <Cyrchwyd 7 Awst 2021>
- Gray, Madeleine, 'Gwyrth yn y coed gynt: A Rediscovered Miracle Collection from the Shrine of the Virgin Mary at Penrhys?' yn *Studia Celtica* Vol 45:1 (2011) 105-109 [Ar -lein] Ar gael ar: <https://www-ingentaconnect-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/content/uwp/stce/2011/00000045/00000001/art00005#> <Cyrchwyd 28 Gorffennaf 2021>
- Gray, Madeleine, 'Sacred space and the natural world: the holy well and shrine of the Virgin Mary at Penrhys' yn *European Review of History: Revue europeenne d'histoire*, Vol. 18, No. 2, 15.04.2011, tt. 243 – 260 [Ar-lein] Ar gael ar: [Sacred space and the natural world: the holy well and shrine of the Virgin Mary at Penrhys > University of South Wales Research Explorer](#) <Cyrchwyd 28 Gorffennaf 2021>
- Hartwell Jones, G., *Celtic Britain and the Pilgrim Movement* (London: The Hon. Society of Cymmrodorion, 1912)
- Henken, E. R., "The Saint as Secular Ruler: Aspects of Welsh Hagiography." *Folklore*, vol. 98, no. 2, 1987, pp. 226–232.) [Ar-lein] Ar gael ar: www.jstor.org/stable/1259984 <Cyrchwyd 21 Gorffennaf 2020>
- Henken, E. R., *The Welsh Saints: A Study in Patterned Lives* (Cambridge: D. S. Brewer, 1991)
- Henken, E. R., *Traditions of the Welsh Saints* (Cambridge: D. S. Brewer, 1987)
- Henken, E. R., 'Welsh Hagiography and the Nationalist Impulse' yn *Celtic Hagiography and Saints' Cults*, gol. J. Cartwright (Cardiff: University of Wales Press, 2003)
- Hurlock, K., *Medieval Welsh Pilgrimage c.1100-1500* (New York: Palgrave Macmillan, 2018)
- Inglis, E., 'Inventing Apostolic Impression Relics in Medieval Rome' yn *Speculum*, vol. 96(2), (2021), 309–366. [Ar-lein] Ar gael ar https://www-journals-uchicago-edu.ezproxy.uwtsd.ac.uk/doi/10.1086/713103#_i28 <Cyrchwyd 27 Gorffennaf 2021>
- James, Christine, 'Pen-rhys: Mecca'r Genedl' yn *Cwm Rhondda* gol. Hywel Teifi Edwards (Llandysul: Gwasg Gomer, 1995)
- John, T. a Rees, N., *Pilgrimage: A Welsh Perspective* (Ceredigion: Gomer Press, 2002)
- Johnston, Dafydd, *Llên yr Uchelwyr: Hanes Beirniadol Llenyddiaeth Gymraeg 1300-1525*, ail arg (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru Caerdydd, 2014)

- Jones, F., *The Holy Wells of Wales* (Cardiff: University of Wales Press, 1954)
- Lewis, Samuel, 'Holywell - Hyssington' *A Topographical Dictionary of Wales* (London: S Lewis, 1849) 430-440 [Ar-lein] Ar gael ar: <http://www.british-history.ac.uk/topographical-dict/wales/pp430-440> <Cyrchwyd 11 Gorffennaf 2021>
- Lhwyd, Edward, *Parochialia Parts I, II and III*, gol. Rupert H. Morris (London: Bedford Press, 1909-1911)
- Pennant, Thomas, *Tours in Wales Vol. I, II a III* gol. John Rhys (Caernarvon: H. Humphreys, 1883)
- Rattue, J., *The Living Stream: Holy Wells in Historical Context* (Woodbridge: The Boydell Press, 2001)
- Ross, A., *Pagan Celts* (Rhuthin: John Jones Printing Ltd, 1998)
- Ross, A., *Pagan Celtic Britain: Studies in Iconography and Tradition* (London: Sphere Books Ltd, 1974)
- Rhys, J., *Celtic Folklore: Welsh and Manx Volume I* (Oxford: The Clarendon Press, 1901)
- Smith, J. M. H., "Oral and Written: Saints, Miracles, and Relics in Brittany, c. 850-1250." yn *Speculum*, vol. 65(2), (1990), 309-343. [Ar-lein] Ar gael ar www.jstor.org/stable/2864295 <Cyrchwyd 24 Gorffennaf 2020>
- Williams, Glanmor, 'Poets and Pilgrims in Fifteenth and Sixteenth Century Wales' yn *Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion* (1991) 69-98 [Ar-lein] Ar gael ar: <https://journals.library.wales/view/1386666/1423792/72> <Cyrchwyd 14 Mai 2021>
- Williams, Glanmor, *The Welsh Church from Conquest to Reformation*. (Cardiff: University of Wales Press, 1976)
- Winward, F., 'The Lives of St Wenefred (BHL 8447-8851) yn *Analecta Bollandiana*, Vol 117 (1999) 89-132